| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn.**<br><br>**Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:**<br><br>• **Ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;**<br>• **Codi "Bloc" newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2;**<br>• **Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.**<br><br>**Byddai'r "bloc" newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.**<br><br>**Nododd Aelodau Etholedig y dylai'r trefniant newydd weithredu fel un ysgol ac nid fel dwy uned ar wahân.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

Derbyniwyd drwy law gan Cyng Aled Jones 26/7/18 15.40 pm

# FFURFLEN GAIS I ALW PENDERFYNIAD I MEWN /CALL-IN APPLICATION FORM

- **RHAID i bump aelod nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith** lofnodi a danfon y ffurflen at y Prif Weithredwr (neu ei gynrychiolydd) yn ystod y cyfnod galw-i-mewn fel y nodir yn y Cyfansoddiad. Dylid anfon copi hefyd at y Rheolwr Sgriwtini /
- ***MUST be signed by five Non-Executive Members*** *and delivered to the Chief Executive (or his representative) during the call - in period as stipulated in the Constitution. A copy should also be forwarded to the Scrutiny Manager.*

## RHAN 1 / *SECTION 1*

**Y PENDERFYNIAD A WNAED -Ticiwch y bocs i ddangos pwy wnaeth y penderfyniad a nodwch y dyddiad y gwnaed y penderfyniad:**
***DECISION TAKEN - Tick the box to show the decision taker and insert the date when the decision was made:***

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Gwaith** | ✓ | ***The Executive*** |
| **Yr Arweinydd** | | ***The Leader*** |
| **Aelod Portffolio (gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo gan y Pwyllgor Gwaith )** | | ***Portfolio Member ( with delegated authority from the Executive)*** |
| **Swyddog ( gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo gan y Pwyllgor Gwaith ) /** | | ***Officer ( with delegated authority from the Executive)*** |

| |
|---|
| **Dyddiad y penderfyniad** / *Date of decision :* 16/7/2018 |

Cyhoeddir 19/7/2018

## RHAN 2 / *SECTION 2*

**RHIF EITEM Y PENDERFYNIAD A'R PWNC (gellir cael y wybodaeth hon o'r penderfyniad a gyhoeddwyd) / DECISION *ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER (Information is identifiable from published decision):***

Item 5 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)

## RHAN 3 / *SECTION 3*

**Y RHESWM DROS ALW'R PENDERFYNIAD I MEWN / REASON *FOR CALL IN:***

(1) Gwallau yn yr ymgynghoriad
(2) Deg mlynedd o ansicrwydd i'r gymuned
(3) Arolwg gymunedol yn wan. Cod 104 Cod Cyfredol. Llywodraeth Cymru
(4) Ysgol gyffelyb gydag llai o blant a safonau isel, yn dal i fod ar agor - felly anghysondebau rhwng ysgolion
(5) Adeiladu tai newydd yn ardal Cefni a all ddilyn i orlifiad, fel y digwyddodd gyda Ysgol y Graig

V011012

P.T.O

(6) Diffyg arolwg drafnidiaeth ar y llwybr o Dalwrn i Langefni (i feicio a cherdded)

**<u>RHAN 4 / *SECTION 4*</u>**

**Y CWESTIWN ALLWEDDOL Y BWRIEDIR EI OFYN / KEY *PROPOSED <u>QUESTION</u>* :**

| |
|---|
| Diffygion yn yr ymgynghoriad i wneud a chostau adeiladu ac hefyd ardaloedd gymunedol a thrafnidiaeth. |

**<u>RHAN 5 / *SECTION 5*</u>**

**YR AELOD SY'N ARWAIN Y BROSES GALW I MEWN ( enw'r Aelod sy'n Arwain fel y gellir sefydlu pwynt cyswllt) / *LEAD CALL- IN MEMBER ( Lead Call- In Member to be identified so that a point of contact is available ) :***

| |
|---|
| LEWIS WYN DAVIES |

**<u>RHAN 6 / *SECTION 6*</u>**

| |
|---|
| **1) Llofnod/*Signature:*** |
| **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** LEWIS WYN DAVIES |
| **2)Llofnod/*Signature:*** ERIC WYN JONES |
| **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** |
| **3)Llofnod/*Signature:*** |
| **Printiwch eich Enw/Print Name :** PETER ROGERS |
| **4)Llofnod/*Signature:*** |
| **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** BRYAN OWEN |
| **5)Llofnod/*Signature:*** |
| **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** Aled Morris Jones |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16 Gorffennaf 2018** |
| **Pwnc:** | **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn ardal Llangefni: Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ac i ystyried yr argymhellion a nodwyd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng R Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams (Pennaeth Dysgu)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Annwen Morgan ( Prif Weithredwr Cynorthwyol)** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cyng Nicola Roberts**<br>**Cyng Bob Parry**<br>**Cyng Dylan Rees** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Mae'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad( Atodiad 1) yn arwain at y casgliadau a ganlyn:**

i.Mae safonau yn y ddwy ysgol yn debyg o safbwynt y cyrhaeddiad disgwyliedig (Lefel 4+). Serch hynny, mae tystiolaeth dros y tair blynedd ddiwethaf yn nodi bod Ysgol y Graig wedi llwyddo i ymestyn canran uwch o ddisgyblion i lefelau uwch yn y pynciau craidd. Yn sgîl hyn ni fyddai uno yn cael effaith negyddol ar safonau.

ii.Byddai uno yn gwneud defnydd gwell o adnoddau'r Cyngor ac yn unioni cost y pen.

iii.Byddai uno'r ddwy ysgol yn gallu creu'r amodau i'r Pennaeth gael amser digyswllt digonol ar gyfer arweinyddiaeth.

iv.Byddai dod â'r ddwy ysgol ynghyd yn rhoi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw ac yn darparu adnodd unfed ganrif ar hugain ar gyfer defnyddwyr yr ysgol. Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y ddwy ysgol yn £369k gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i Ysgol Talwrn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Cydnabyddir fodd bynnag y gallai costau cludiant ychwanegol ddeillio o gludo plant ond mae'n anodd ar y pwynt hwn i bennu'r rhain ac o ganlyniad nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad. Cydnabyddir hefyd y byddai estyniad i Ysgol Y Graig yn ddrutach na'r drefn gyfredol ond fe wrthbwysir y gost ychwanegol yn rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Talwrn.

**Yn sgîl yr uchod, argymhellir cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.**
Gwneir hyn trwy:-

- ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;
- codi 'Bloc' newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
- ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.

Byddai'r 'bloc' newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 19, 2016 penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn awdurdodi swyddogion i barhau i'r broses ymgynghori statudol, ac ymgynghori ar opsiwn A a B sydd wedi eu hamlinellu isod, mewn ymgais i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni.

**Opsiwn A**
Bydd hyn yn seiliedig ar:
Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
Opsiwn 6a, adeiladu ysgol gynradd newydd yng Ngaerwen ar safle arall, ar gyfer 150 o blant. Ysgol I gymryd lle yr ysgol bresennol Ysgol Esceifiog
Opsiwn 7, ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. Bydd angen ymgynghoriad pellach ar y r opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn
Opsiwn 9, addasiadau i Ysgol Henblas

**Opsiwn B**
Bydd hyn yn seiliedig ar:
Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
Opsiwn 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog
Opsiwn 7, ymestyn Ysgol y Graig i gymryd plant o Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn
Opsiwn 9, addasiadau i Ysgol Henblas

Mae'r ddau opsiwn uchod yn cynnwys ffedereiddio Ysgol Henblas efo ysgol arall. Mae'r gwahaniaeth rhwng opsiwn A a B yn berthnasol i Ysgol Esceifiog.

Ymgynghorodd y Cyngor efo rhieni, Llywodraethwyr a staff y chwech ysgol yn yr ardal,

| |
|---|
| aelodau etholedig lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 31ain Ionawr - 13eg Fawrth 2017 Yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i gymeradwyo opsiwn B.<br><br>Mae **Opsiwn B** yn cynnwys yr is-opsiynau canlynol:<br>Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.<br>Opsiwn 7, ymestyn Ysgol Y Graig i gymryd plant o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. Mae'r adroddiad yn cadarnhau nad oes llefydd digonol ar safle presennol yr ysgol i ymestyn, a chaniatáu digon o lefydd chwarae. Y cynnig yw - swyddogion i ymgynghori ymhellach efo rhanddeiliaid perthnasol ar yr holl opsiynau i ymestyn Ysgol y Graig, i gyd-fynd efo cynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.<br>Opsiwn 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog.<br>Opsiwn 9, adnewyddu Ysgol Henblas.<br><br>Ystyriwyd cyfanswm o 9 opsiwn yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Llangefni. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail ar gyfer cymeradwyo opsiwn B. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefnidiaeth ysgolion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw-gweler y pwynt uchod. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw-Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor gwaith ar13 Ionawr 2014. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r Uwch Dim Arweinyddiaerh wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae cyfrifiadau swyddogion Cyllid wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion Adnoddau Dynol ( AD) sy'n codi o'r argymhellion yn unol a phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Trafodwyd y mater hwn yn y cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 , daeth y pwyllgor sgriwtini i'r casgliad fel a ganlyn :-<br><br>Penderfyniad<br><br>Wedi ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac ar bapur, Penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -<br><br>•Beidio â derbyn yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog.<br><br>•Argymell fel a ganlyn mewn perthynas â'r broses adrodd yn y dyfodol –<br><br>•Bod unrhyw faterion mewn perthynas â pherchenogaeth tir yn cael eu hegluro ymlaen llaw.<br>•Bod gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu mewn perthynas â chludiant ysgol a materion parcio.<br>•Pan mae siaradwyr cyhoeddus yn annerch y Pwyllgor ar ran ysgol ac yn cyfeirio at ohebiaeth benodol a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, y bydd yr ohebiaeth honno ar gael i'r Pwyllgor ar yr amod fod yr awduron wedi rhoi eu caniatâd.<br>GWEITHRED YCHWANEGOL: Yn dilyn y cyfarfod, fod Penaethiaid Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn cael gwybod am ganlyniad trafodaethau'r Pwyllgor. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Mae sylwadau'r aelodau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Mae sylwadau rhanddeiliaid eraill wedi eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | hymgorfforri yn yr adroddiad. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Cwblhawyd asesiad effaith fel rhan o'r broses ymgynghori statudol.(Atodiad 2.) |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 - Adroddiad Ymgynghori Statudol - Ardal Llangefni (Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig)<br>Atodiad 2 – Asesiad Effaith-- Ardal Llangefni (Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig) |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022<br>www.ynysmon.gov.uk |

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORI STATUDOL – ARDAL LLANGEFNI
# (Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn)
# *STATUTORY CONSULTATION REPORT – LLANGEFNI AREA*
# *(Ysgol Y Graig and Ysgol Talwrn)*

## 1 Mai – 18 Mehefin 2018 / *1 May – 18 June 2018*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk**

| Rhif | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD A CHEFNDIR | 3 |
| 2. | GYRWYR NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 6 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL TALWRN | 6 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL Y GRAIG | 8 |
| 7. | YMATEBION ERAILL | 9 |
| 8. | ADBORTH GAN DDISGYBLION | 10 |
| 9. | YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD | 14 |
| 10. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 19 |
| 11. | YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL | 22 |
| 12. | CASGLIADAU ac ARGYMHELLIAD | 23 |
| 13. | ADBORTH AR LEIN | 24 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn am sicrhau’r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o’r ymrwymiad hwn, mae’r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy’n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae’r Cyngor am foderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri’r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- sicrhau ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno’r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion, creu cyfuniad o ffederasiynau ysgolion, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgolion sydd yn bodoli neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO BYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I’R ARDAL

Nodir isod rhai o’r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i’r ardal.

*Codi safonau addysgol*

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i godi safonau os am gyrraedd ei nod o fod yn un o’r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 150 o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd â mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gydag ystod ehangach o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i’w allu. Mae’r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

*Lleihau’r amrywiad mewn cost y disgybl*

Mae’r gost fesul disgybl yn amrywio’n sylweddol, o £2,795 i £10,828, ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] y trydydd uchaf yng Nghymru. Bydd angen i’r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio’r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a’i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau’r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy’n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeiladau ysgolion diweddaraf - Ysgol y Graig, Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae’r math hyn o amgylchedd yn cynnwys –

- cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau,
- cyfleusterau TGCh o’r radd flaenaf,
- mannau chwarae addas,
- ardaloedd staffio a gweinyddu priodol,
- ynghyd â diogelwch ar gyfer adeiladau’r ysgol a safle’r ysgol.

Noda Estyn mewn adroddiad o 2007 bod “gwella ansawdd yr adeiladau’n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant.” Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i’r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy’n heneiddio ac yn gostus i’w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu’r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy’n gysylltiedig â’r adeilad neu’r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy’n gynaliadwy.

*Creu’r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*
Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae’r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae’r disgwyliadau’n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dîm rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a’r dysgu o’r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae’r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu’r amser angenrheidiol i’r Pennaeth i gyflawni’r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*
Dros y pum mlynedd nesaf mae’n debyg y bydd 28% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i’r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i’r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio’n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu’r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

Yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-17 fe nodir:

*“Ym mron pob ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth yw’r ffactor mwyaf arwyddocaol o ran pennu effeithiolrwydd ysgol. Ceir heriau cynyddol wrth recriwtio penaethiaid, yn enwedig mewn ysgolion ffydd ac ysgolion bach mewn ardaloedd gwledig (Adroddiad Blynyddol Estyn 2016-2017)*

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i’r

gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*
Ym Medi 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 12.3%. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n digwydd rhwng 1 Mai hyd at 18 Mehefin 2018.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn.

| Ysgol | Dyddiad (yn 2018) | Cyfarfod gyda |
|---|---|---|
| Y Graig | Dydd Mawrth 15 Mai | Sesiynau galw fewn |
| Talwrn | Dydd Mercher 16 Mai | Sesiynau galw fewn |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol i'r ysgolion sydd yno yn bresennol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- yn sicrhau newid y sefyllfa o ran amser di-gyswllt i athrawon.
- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanegol yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae’r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu’r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i’r ysgol gynradd newydd. Yn unol â’r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai’r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i’r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu’r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

## 4. SYLWADAU O’R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o’r cyfarfodydd isod (nid yw’r rhain yn gofnodion o’r cyfarfodydd). Ceir mwy o sylwadau yn rhannau 5 a 6 o’r adroddiad hwn.

**<u>Ysgol y Graig</u>**

- Holwyd am safle posib ac amserlen posib y gwaith
- Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu
- Pryder am faint yr adeilad newydd a chyfleusterau yno
- Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol
- Holwyd am effaith posib y gwaith ar Dechrau’n Deg

**<u>Ysgol Talwrn</u>**

- Awgrymu dylai’r Awdurdod ddisgwyl tan i’r Côd Trefniadaeth Ysgolion newydd ddod i rym
- Y teimlad nad yw’r Awdurdod wedi gwrando
- Beth am ffedereiddio neu ymuno gydag ysgolion eraill?
- Pryder beth fyddai’r sefyllfa o ran A.A.A.
- Yr ysgol yn llwyddo i feithrin penaethiaid
- Beth fyddai’r trefnaiadau ar gyfer clybiau ar ôl ysgol?
- Y teimlad nad yw’r Awdurdod wedi gwario ar yr ysgol
- Cost caban yn uchel yn nhyb rhai
- Pryder o ran plant ysgol gynradd fechan yn mynd i ysgol gynradd “o 400”
- Rhai’n amau nifer y datblygiadau tai yn y dalgylch
- Pryder am y traffig a’r daith posib i Langefni
- Pryder am ddyfodol yr Eisteddfod leol, yr Ysgol Sul a darpariaeth Ti a Fi

## 5. YMATEBION O YSGOL TALWRN

5.1 Derbyniwyd tua 50 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda’r posibilrwydd o gau’r ysgol.

5.2 Barn swyddog yng Nghapel Nyth Clyd, Y Talwrn oedd ei fod yn "gadarn ei farn na ddylid cau yr ysgol". Roeddent yn teimlo fod yr ysgol yn sylfaen i'r Gymdeithas leol a hefyd yn cyfrannu'n eang iawn at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref". Petai Ysgol Talwrn yn cau, barn y swyddog oedd byddai’r “Cyngor yn euog o wrthod cyfle i greu dinaswyr cyfrifol”. Yn ogystal â chanmol yr ysgol, roedd y swyddog yn crybwyll “canllawiau clir sydd ar fin cael eu cyhoeddi” gan Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru ynglŷn â pam na ddylid cau ysgolion gwledig oni fod seiliau cadarn i wneud hynny.” Roedd yn teimlo “nad oedd seiliau cadarn yn bodoli yma”

5.3 Mewn llythyr gan Gangen y Talwrn o Ferched y Wawr, roedd yr Ysgrifennydd yn datgan gwrthwynebiad y Gangen i'r "bwriad o gau Ysgol y Talwrn". Roedd y Gangen yn dweud mai "dymuniad y gymuned a'r rhieni yw gweld yr ysgol yn parhau fel rhan ganolog o'r pentref a'r ardal". Dywedodd fod Ysgol Talwrn "yn ysgol lewyrchus, naturiol Gymraeg mewn pentref bywiog a dymunwn iddi aros felly". Roedd y Gangen "eisiau ysgol yn y pentref yn rhan annatod o gymuned hyfyw Gymraeg".

5.4 Cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 16 Gorffennaf 2018, bydd deiseb yn cael ei chyflwyno i Arweinydd y Cyngor. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn arwyddo'r ddeiseb i gytuno i "gadw ein Ysgol yn Agored". Mae'r ddeiseb wedi ei harwyddo gan 1010 o lofnodwyr.

5.5 Yn ei ymateb, dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod:

- "y ddogfen ymgynghorol hwn i bob pwrpas yw ail-gyhoeddi'r hen ddogfen ymgynghorol o'r ymgynghoriad diwethaf, os nad yr un cyn diwethaf! O ganlyniad mae llawer o'r cynnwys yn amherthnasol i'r cynnig dan sylw am y ddwy ysgol hyn, gan ei fod yn cyfeirio at ysgolion eraill.
- Y Cyngor yn "anghyfrifol yn brysio i benderfynu ar ei thynged ychydig wythnosau cyn cyhoeddi'r Côd newydd."
- llawer o'r opsiynau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn amherthnasol i sefyllfa Talwrn ac yn cyfeirio at y sefyllfa i'r gorllewin o Langefni nad ydynt yn destun i'r ymgynghoriad hwn.
- Nid yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried pob ateb amgen CYN cynnig cau ysgol, yn ogystal ag ystyried pob opsiwn a gynigir yn ystod yr ymgynghoriad. Dyw swyddogion y Cyngor ddim wedi cyflawni'r naill ddyletswydd na'r llall. Maent wedi methu yn eu dyletswyddau statudol.
- Am yr holl resymau hyn, y mae'r ymgynghoriad yn annilys a'r ddogfen yn gwbl annigonol.

5.6 Derbyniwyd ymateb gan Ysgrifennydd Pwyllgor Neuadd y Pentref a Chae Chwarae Talwrn oedd yn dweud:

- "Mae ein hysgol ni wrth galon ein pentref. Dros nifer o flynyddoedd mae'r ysgol a'r neuadd bentref wedi cydweithio ar nifer o weithgareddau, ac mae'r neuadd yn dibynnu ar yr ysgol am ei gefnogaeth. Mae disgyblion a rhieni wedi cefnogi digwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynorthwyo tuag at gostau cynnal a chadw hanfodol y neuadd a'i faes chwarae / cae chwarae. Yn ogystal â chefnogi cyfleuster sy'n cael ei ddefnyddio'n dda gan y gymuned leol, mae hefyd yn un sy'n cael ei defnyddio gan yr ysgol ar gyfer digwyddiadau megis gweithgareddau'r gampfa, Diwrnod Chwaraeon, cyngherddau Nadolig, ac ati. Yn ogystal, mae gennym nifer o gymdeithasau, gan gynnwys Cylch Meithrin, y Grŵp Mam a Phlentyn a'r The Guides, sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn y Neuadd, a fyddai'n dioddef hefyd os dylai'r ysgol gau. Yn arbennig, mae plant yr ysgol yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o eitemau o fewn Eisteddfod Talwrn, os nad y cyfan.
- Bydd hyn nid yn unig yn arwain at fwy o draffig ar y ffyrdd i Langefni, ond bydd yn lleihau'r cyfleoedd i'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd wella eu hiechyd trwy gerdded neu feicio.
- Nid oes gennym gynnig arall, o ran cau ysgolion eraill i ganiatáu i'n hysgol aros yn agored. Yn hytrach, byddem yn dadlau y bydd ansawdd uchel yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talwrn yn diflannu."

5.7 Yn ei lythyr, dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod y Talwrn:

- "Mae Ysgol Talwrn wedi darparu, ac yn dal i ddarparu, addysg dda i'r disgyblion. Mae hefyd yn rhan annatod o wead cymdeithasol y pentref. Camgymeriad annoeth yw ystyried yr ysgol yn nhermau cul ei gwaith statudol – mae yr ysgol yn ganolbwynt ardal ac yn galluogi pentref cyfan i fod yn rhan o ddatblygiad plant i greu dinasyddion da a chydwybodol.
- mai ystyriaethau ariannol a dogma'r sefydliad addysgol sydd tu ôl i'r bwriad i gau ysgolion gwledig ar yr Ynys."

5.8 Derbyniwyd llythyr gan Staff Ysgol Y Talwrn oedd yn sôn am wahanol agweddau o'r ysgol:

- "Mae gan yr ysgol hanes o gynnal safonau uchel ac mae data eleni yn cadarnhau unwaith eto fod yr ysgol yn llwyddo. ... Gall data fod yn gamarweiniol o safbwynt ysgolion bach
- Mae pob plentyn mewn ysgol fechan yn derbyn cyfleoedd all-gyrsiol boed yn draws gwlad, cyfeiriannu, pêl-rwyd neu gala nofio gan dderbyn profiadau waeth be fo'u talent neu allu. Mae niferoedd ein grwpiau yn caniatau i'r plant nofio yn wythnosol o bedair oed. Nid yw hyn yn bosib mewn ysgolion mwy eu maint.
- Mae hyn hefyd yn wir am eisteddfodau. Nid oes angen clyweliadau i blant yr ysgol cyn dewis côr. Nid oes angen treialon dawnsio cyn cystadlu mewn cystadlaethau dawns. Nid yw'r plant yn cael eu siomi drwy beidio cael eu dewis ar gyfer ein parti llefaru. Mae pob un plentyn yn cael cyfle i fwynhau pob agwedd o ddiwylliant yn hytrach na goreuon yr ysgol yn unig.
- Dylid hefyd bwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth Ysgol y Talwrn i'r eisteddfod leol
- Byddai cau'r ysgol yn tramgwyddo dyfodol yr iaith yn y gymuned leol a thu hwnt.
- Hawl rhiant yw cael dewis y sefydliad gorau i'w plentyn, boed yn ysgol fawr neu ysgol fach o ran maint."

## 6. YMATEBION O YSGOL Y GRAIG

6.1 Cafwyd 2 ymateb gan randdeiliaid Ysgol y Graig. Daeth y cyntaf gan y Pennaeth. Dyma oedd ei barn: "Wrth ystyried y gofod ar gyfer chwarae, byddai'n fuddiol cael tir aml-dywydd fel ei fod yn bosib ei ddefnyddio ar hyd y flwyddyn. Mae'r cae ysgol yn ddifrifol o wlyb, ac er ymdrechion i fynd i'r afael â hyn nid yw'n bosib ei ddefnyddio ond am ychydig o fisoedd yn yr haf. Byddai cael ardal aml-dywydd yn sicrhau cyfleoedd i fynd i'r afael â materion megis hyrwyddo ymarfer corff er mwyn lleihau gor-dewdra. Mae hefyd angen ystyried beth i'w wneud parthed y felin wynt, nad yw'n gweithio bellach."

6.2 Mynegodd y rhanddeiliad arall ei gefnogaeth i'r cynllun a dywedodd byddai'n "rhaid i'r dyluniad newydd fod yn seiliedig ar lais yr athrawon a'r staff sydd wedi profi'r rhwystredigaeth o gael neuadd aml-bwrpas mor fychan fel bod trefnu cinio a gweithgareddau eraill i ysgol mor fawr wedi bod yn dipyn o gur pen."

## 7. YMATEBION ERAILL

7.1 Yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol a’r Aelod Seneddol
- Estyn;
- Undebau’r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GwE;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

7.2 Yn ei grynodeb o’i ymateb i’r ymgynghoriad hwn, dywedodd Estyn “Mae Estyn o’r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf.” Yn ogystal, roedd yr arolygiaeth o'r farn fod yr “awdurdod lleol wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y manteision disgwyliedig a fwriedir o gymharu â’r sefyllfa bresennol o ran cyllid, lleoedd dros ben, safonau disgyblion, ansawdd yr amgylchedd dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Hefyd, mae’r cynigiwr yn esbonio’n briodol sut mae’r cynnig yn cydweddu â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod.
Mae’r cynnig yn diffinio manteision disgwyliedig y cynnig yn glir, ac mae’r rhain yn cysylltu’n briodol â’r diben datganedig a’r sail resymegol. Mae’r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun yn debygol o gynnal safon addysg yn yr ardal o leiaf.”

7.3 Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.E.U. Roedd eu swyddog yn dweud: “Mae undeb yr NEU yn derbyn yr achos busnes dros gau Ysgol Talwrn o ystyried y costau cynnal a chadw parhaus, mynediad i gyllid Llywodraeth Cymru a chost fesul disgybl o £1,050 yn fwy nag Ysgol y Graig. Gyda llefydd gweigion yn 12% ac yn debygol o gynyddu, gallwn weld buddion o uno'r ddwy ysgol oherwydd eu bod yn agos. Fel Undeb Llafur, yr ydym yn gwrthwynebu diswyddiadau gorfodol ac yn bryderus iawn nad oedd yr un o'n haelodau sydd wedi eu diswyddo hyd yma o ganlyniad i Santes Dwynwen wedi gallu dod o hyd i swyddi eraill trwy eu hadleoli. Mae angen pwysau mwy effeithiol gan yr Awdurdod ar Lywodraethwyr i sicrhau bod unrhyw staff addysgu / cefnogi sy’n cael eu diswyddo pe bai Ysgol Talwrn yn cau, yn cael ei gyfweld ar gyfer swyddi gwag.”

**Ymateb yr Awdurdod i sylw’r swyddog undeb yr N.E.U.**
O ran y staff sydd yn y bedair ysgol fydd un uno i ffurfio Ysgol Santes Dwynwen sydd ar y rhestr adleoli – nid yw yr un ohonynt wedi eu hadleoli **hyd yma**. Mae’n rhaid cofio nad yw’r broses adleoli drosodd tan Mawrth 2019 a felly bydd y broses adleoli yn parhau hyd hynny.

Bydd yr Awdurdod yn gwneud bob dim posib ar gyfer rhoi cymorth i’r sawl sydd ar y rhestr adleoli. Er hynny, mae’r Awdurdod yn gweithredu o dan cyfyngiadau y Rheoliadau Staffio h.y. mae penderfyniadau ynghylch recriwtio yn nwylo pob Corff Llywodraethol unigol.

7.4 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan. Eu hymateb oedd: “Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi’r farn leol i peidio cau yr Ysgol. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, a wedi bod efo 42 - 49 o ddisgyblion dros y blynyddoedd diwethaf ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol. Mae tua 100 o dai yn cael eu hadeiladu yn Llangefni. A fydd lle i blant o'r eiddo hyn y Ysgol y Graig? Bu diffyg yn y broses ddiwethaf ac mae'r cyngor cymuned yn teimlo nad yw'r Cyngor Sir yn gwrando.”

7.5 Yn ychwanegol i’r ffurflenni a’r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i’r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir crynodeb o’r arolwg [10 o ymatebion] yn rhan 13.

## 8. ADBORTH GAN DDISGYBLION

8.1 Ymwelodd swyddogion y Cyngor ag Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig er mwyn cynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o’r ddwy ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Roedd yn gyfle i’r plant o’r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau’r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy’n mynychu’r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a’i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o’r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai’r rhesymau dros foderneiddio oedd:
- Mae gan ysgolion Ynys Môn gormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o’u hysgolion
- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig offer da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r plant:
Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?
Beth oedd eu barn am y cynnig o addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig?
A oeddent yn cytuno gyda’r rhesymau dros newid?

Unrhyw sylwadau eraill
Mae’r ymatebion wedi eu cyflwyno isod. Yn ystod rhai o’r sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur a cyflwynir y rhain yn iaith y plant.

### 8.2 Barn Plant Ysgol Talwrn

Holwyd y Cyngor Ysgol yn y lle cyntaf. Yna cafodd grŵp o blant o oedrannau gwahanol gyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Roedd rhieni'r plant hynny wedi mynegi diddordeb mewn cynnwys eu plant yn yr ymgynghoriad.

| **Cwestiwn:** Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgol bresennol? |
|---|
| • Mae gan Ysgol Talwrn nifer o adnoddau. Mae’r Cyngor Ysgol wedi trefnu i godi arian er mwyn prynu offer pêl-rwyd. O ganlyniad bydd yr ysgol yn gallu cynnal clwb pêl rwyd ar ôl ysgol, pob dydd Iau.<br>• Nid ydym eisiau adnoddau fynd i wastraff<br>• Mae gennym drên newydd ar yr iard ac offer da yma<br>• Mae gwaith pawb yn yr ysgol yn cael mynd i fyny ar y waliau. Mewn ysgol fawr bydd llai o gyfle i arddangos gwaith gan mai ond y gwaith gorau fydd yn mynd i fyny.<br>• Rwy’n poeni bydd rhaid i blant blwyddyn 6 Ysgol Talwrn symud ysgol dwywaith mewn cyfnod byr. Symud i ysgol gynradd arall ac ysgol uwchradd.<br>• Mae’r staff yn Ysgol Talwrn yn adnabod pawb, a phawb yn adnabod y staff<br>• Rhestrwyd pobl o’r gymuned sy’n ymweld â’r ysgol - roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael profiadau gwerthfawr - ac mae un aelod yn cyfansoddi caneuon i ysgol Talwrn yn unig<br>• Cyfeiriwyd at Eisteddfod Talwrn sy’n cael ei gynnal yn y Neuadd Bentref ac mae peryg colli hyn os fydd yr ysgol yn cau. Dim ond y gorau sy’n cael eu dewis i gymryd rhan yn yr ysgolion mawr.<br>• Mae’r plant yn cael cyfle i ymgynnull yn y sgwâr ar ôl ysgol. Mae hyn yn draddodiad gan yr ysgol. Mae’r rhieni a’r plant yn gallu ymgynnull a chael sgwrs ar ôl ysgol<br>• Rydym yn cael gwersi beics yn yr ysgol<br>• Digon ac amrywiaeth a chyfleoedd<br>• Ffrindiau<br>• Chwarae<br>• Plant newydd yn ymuno â’r ysgol<br>• Rydym fel teulu yn adnabod ein gilydd.<br>• Rydym yn cael chwarae mewn tîm a phawb yn cymryd rhan<br>• Mae fy nghefnder yn mynd i ysgol fawr ac rwy’n clywed ganddo nad oes gymaint o gyfle i bawb gymryd rhan yno.<br>• Mae pawb yn edrych ar ôl ei gilydd<br>• Dim lot o blant yma<br>• Dysgu pethau newydd<br>• Rwyf yn gallu cerdded i’r ysgol<br>• Clwb pêl-rwyd<br>• Y trên ar yr iard<br>• Chwarae a ffrindiau cyfeillgar<br>• Beicio i’r ysgol<br>• Cerdded lawr i’r sgwâr ar ôl ysgol<br>• Dewisodd fy Mam yr ysgol yma oherwydd bod yr iaith Gymraeg yn dda yma<br>• Athrawon yn gwybod ein henwau<br>• Offer ac adnoddau newydd a mwy o glybiau<br>• Aelodau o’r gymuned yn darllen gyda ni<br>• Os mae plentyn yn brifo, mae plant eraill yn ofalgar ohonynt<br>• Cyfleoedd garddio hefo aelodau’r gymuned<br>• Llyfrau am natur<br>• Tripiau ysgol |

- ‘Gwesty Trychfilod’
- Natur o amgylch yr ysgol a’r dysgu amdano
- Eisteddfod Talwrn a’r cyfle i fod yn y côr
- Ras rhedeg yn y mabolgampau
- Ras traws gwlad
- Lot o glybiau
- Timau pêl droed ysgol a llwyddiant diweddar. Roedd gan y timoedd eraill 13 o blant a dim ond 8 oedd gan Talwrn, Roedd o felly yn glod i Ysgol Talwrn am lwyddo.
- Eisteddfod Talwrn
- Ymarfer corff tu allan
- Mewn ysgol fawr mae'r staff yn anghofio enwau gan fod mwy o enwau i’w cofio
- Rwyf wedi bod yn Ysgol y Graig a symudais i Ysgol Talwrn
- Digon o blant i chwarae gyda mi
- Cyfle i wylio ffilm i’r plant ieuengaf a’r rhai hŷn ar y cyd
- Plant yn helpu ei gilydd
- Mwy o bres mewn ysgol fawr na sydd gan ysgol fach, ond mae digon o deganau yn yr ysgol yma.
- Dysgu rhywbeth newydd pob diwrnod
- Ar nosweithiau'r clwb celf sy’n cychwyn am 4yp, gallwn fynd lawr i’r sgwâr i chwarae ar ôl ysgol, a dod yn ôl fyny i’r ysgol erbyn 4.
- Mae rhai o’r plant yma wedi dod yma o Ysgol y Graig. Mae Ysgol Talwrn yn ysgol dda
- Y brecwast

| Beth yw eich barn am y cynnig addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig? |
|---|

- Nid wyf eisiau mynd i Ysgol y Graig, ella bydd plant yn cael eu bwlio yna.
- Nid yw’n syniad da. Yn Ysgol Talwrn mae’r plant bach a mawr yn cael gweld ei gilydd.
- Ni fydd hynny yn wir yn Ysgol y Graig.
- Rwy’n poeni pa ysgol uwchradd byddaf yn gorfod ei fynychu
- Mae yna gyfleoedd yma. Mae’r plant mawr yn cael eu ffilmio, ac yn cael eu recordio ar gyfer radio’r Urdd
- Cyfleodd dawnsio yma, ac rydym yn dysgu ein gilydd
- Mae athrawes newydd ar fin cychwyn yma, ni fydd hi’n cael cyfle yn yr ysgol. Yn ogystal mae yna blant sy’n cychwyn yn yr ysgol mis Medi nesaf
- Rydym wedi cael nifer o athrawon newydd a neis
- Weithiau byddwn yn cael gwrando ar gerddoriaeth cyn amser cinio
- Rydym yn cael cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol - dawnsio a dysgu dawnsfeydd gwledydd gwahanol, màths pen a defnyddio’r hwb, ap si-so, ttrockstars (times tables rockstars)
- Peintio
- Rydym yn helpu Anti Delyth i gadw offer y gegin a glanhau’r llawr. Bydd Anti Delyth yn chwarae gyda ni amser cinio ac yn gymhorthydd yn yr ysgol yn y p’nawn

| A ydych yn cytuno efo’r rhesymau dros newid? |
|---|
| • Yn deall y rhesymau ond ddim yn cytuno gyda hwy. |

| |
|---|
| • Efallai bod yr adeilad yn hen a ddim yn edrych yn dda o'r tu allan, ond mae'r hyn sy'n digwydd tu mewn i'r ysgol a'r addysg yn dda |
| Sylwadau pellach |
| • Dim cau'r ysgol<br>• Roedd fy Mam yn mynd i Ysgol y Graig a chafodd ei bwlio yna<br>• Angen sicrhau nad yw'r adnoddau yn mynd i wastraff<br>• Mae digon o adnoddau modern yma - chromebooks ac apple computer |

**Barn Plant Ysgol y Graig - Cynrychiolaeth o'r Cyngor Ysgol**

| **Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?** |
|---|
| • Ffrindiau<br>• Athrawon ffeind<br>• Cinio<br>• Amser chwarae<br>• Ymarfer corff/ chwaraeon<br>• Pêl-droed<br>• Clybiau Celf<br>• Clwb brecwast<br>• Eisteddfod<br>• Gwersi offerynnau<br>• Offerynnau pres<br>• Y gwaith<br>• Gwrando yn yr ysgol |

| **Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i addasu Ysgol y Graig ac i gau Ysgol Talwrn** |
|---|
| • Nid yw'n deg bod rhaid i'r cyfnod Sylfaen symud i adeilad ar gyfer yr adran Iau. Nid ydym ni wedi gorfod gwneud hynny.<br>• Mae'n bwysig cadw'r cysylltiad rhwng y cyfnod Sylfaen a'r adran Iau. Rhoddwyd enghraifft bod un plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn crio heddiw ac fe gysurwyd y plentyn wrth iddo weld ei berthynas hyn yn yr adran Iau.<br>• Syniad da - bydd yn gyfle i gael mwy o ffrindiau<br>• Bydd mwy o le yn yr ysgol<br>• Bydd angen i'r Cyngor ystyried mwy o lefydd parcio ar gyfer Ysgol y Graig<br>• Bydd angen i'r Cyngor ystyried cludiant i'r ysgol ar gyfer plant Ysgol Talwrn, oherwydd efallai nad oes gan y rhieni gar |

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**<br>**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**<br>**Gwneud yn siŵr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**<br>**Ysgol fodern ac offer da**<br>**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg** |
|---|
| • Roedd cytundeb eu bod yn deall y rhesymau dros newid |

| **Holwyd y plant am syniadau ar sut i gyfathrebu gyda hwy yn ystod y cyfnod addasu'r ysgol, os cymeradwyir y cynnig** |
|---|
| • Y plant yn croesawu'r cyfle i sgwrsio gyda'r Pensaer am ddyluniad y bloc newydd ac addasiadau Ysgol y Graig bresennol<br>• E-bost<br>• Newyddlen / Llythyrau |

| **Rhoddwyd y cyfle i gyflwyno sylwadau eraill** |
|---|
| • Holwyd am y wisg ysgol ac os bydd Talwrn yn anghytuno gyda gwisg ysgol y Graig<br>• Holwyd beth sy'n digwydd os fydd gan blant y Talwrn unrhyw alergedd, sut fydd Ysgol y Graig yn gwybod hynny |

## 9. YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

Diolchir i bawb am yr holl sylwadau. Gan fod cymaint ohonynt yn debyg, penderfynwyd eu gosod o dan themâu penodol Nid yw yn bosib ymateb i'r holl sylwadau unigol a dderbyniwyd am sawl rheswm gan gynnwys y ffaith fod nifer ohonynt yn debyg. Cyflwynir isod ymateb yr Awdurdod i'r rhai o'r prif themâu a gyflwynwyd mewn cymhariaeth â'r prif yrwyr newid yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion [adran 2].

### *9.1 Ysgol Talwrn*

1. **Safonau**

   Crybwyllodd nifer o randdeiliaid y canran o ddisgyblion oedd yn cyrraedd y safon disgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 2 sef 100%. Er hynny, mae angen edrych ar y darlun llawn ac ystyried y Cyfnod Sylfaen yn ogystal. Roedd y ddogfen ymgynghori'n manylu ar hyn ac yn dangos y ffigyrau cyrhaeddiad gyda'r ddwy ysgol yn cael eu cymharu gydag ysgolion cyffelyb yn genedlaethol yn defnyddio set ddata meincnodi:

| Ysgol | DCS* | | |
|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Talwrn | 66.7 | 80.0 | 75.0 |
| Y Graig | 92.5 | 82.4 | 91.3 |
| Ynys Môn | 86.2 | 84.7 | 85.8 |
| Cymru | 86.8 | 87.0 | 87.3 |

* – Deilliant 5+ yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen

Chwartel uchaf    Canolrif Uchaf    Canolrif Isaf    Chwartel Isaf

Yn gyffredinol, mae peth amrywiaeth ym mherfformiad yr ysgolion. Gweler bod Ysgol Talwrn wedi bod yn y chwartel isaf yn amlach nag Ysgol y Graig ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y categori lliw o ddangosydd ysgol.

Gweler isod y patrwm dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Cyfnod Allweddol 2:

| Ysgol | CA2* Canlyniadau Ysgol | | |
|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Talwrn | 100 | 85.7 | 100.0 |
| Y Graig | 92.9 | 80.0 | 92.7 |
| Ynys Môn | 91.8 | 89.4 | 91.4 |
| Cymru | 87.7 | 88.6 | 89.5 |

*Lefel ddisgwyliedig (Lefel 4) mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu cyfuno

Mae perfformiad y ddwy ysgol yn CA2 yn eithaf tebyg sef bod Ysgol Talwrn gyda 2 wyrdd ac 1 oren ac Ysgol y Graig gydag 1 gwyrdd a 2 felyn. Yr hyn sydd yn arwyddocaol yw nifer y disgyblion sef cyfartaledd o 7 yn y fintai i Ysgol Talwrn a chyfartaledd o 43 i Ysgol y Graig.

Gellir dadlau bod proffil arolygiad Ysgol y Graig yn rhagori rhyw ychydig

Nodir hefyd ymateb Estyn i'r ymgynghoriad hwn: "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf.".

Yn ychwanegol, gellir edrych ar berfformiad y ddwy ysgol o ran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5+ sef un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig:

| Ysgol | Pwnc | Lefel 5+ yn CA2* Canlyniadau Ysgol | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Talwrn | Gwyddoniaeth | 0.0 | 14.3 | 44.4 |
| | Mathemateg | 0.0 | 14.3 | 44.4 |
| | Cymraeg | 0.0 | 14.3 | 44.4 |
| | Saesneg | 0.0 | 14.3 | 44.4 |
| Y Graig | Gwyddoniaeth | 33.3 | 55.6 | 46.3 |
| | Mathemateg | 47.6 | 73.3 | 75.6 |
| | Cymraeg | 26.2 | 42.2 | 46.3 |
| | Saesneg | 28.6 | 48.9 | 61.0 |
| Ynys Môn | Gwyddoniaeth | 40.9 | 40.4 | 49.5 |
| | Mathemateg | 40.9 | 40.4 | 49.5 |
| | Cymraeg | 38.1 | 35.3 | 38.3 |
| | Saesneg | 42.9 | 41.1 | 46.4 |
| Cymru | Gwyddoniaeth | 41.1 | 42.5 | 46.4 |
| | Mathemateg | 41.1 | 42.5 | 46.4 |
| | Cymraeg | 38.1 | 35.3 | 38.3 |
| | Saesneg | 40.8 | 42.0 | 44.7 |

O'r ystadegau uchod:

- Mae'r ddwy ysgol yn perfformio'n dda o safbwynt lefelau disgwyliedig
- Mae Ysgol y Graig yn llwyddo i gael canrannau uwch i lefel 5+ sydd yn awgrymu bod Ysgol y Graig yn llwyddo i ymestyn disgyblion yn dda ac yn cwrdd â lefelau uwch na'r lefelau ar gyfer Ynys Môn a Chymru

O safbwynt arolygiadau gellir dadlau bod proffil arolygiad Ysgol y Graig yn rhagori rhyw ychydig.

Nodir hefyd ymateb Estyn i'r ymgynghoriad hwn: "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf.".

2. Mae maint Ysgol Talwrn yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.

3. **Costau a chyflwr yr adeilad**

Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch cost y disgybl o £4,447 sydd yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn (£3,972). Yn ogystal mae angen nodi bod ôl-groniad cynnal a chadw o £332,500 sydd yn adlewyrchu oedran a chyflwr yr adeilad.

Nid oedd llawer o rhanddeiliaid Ysgol Talwrn yn sôn am gyflwr yr ysgol heblaw am iddynt amau'r ffigurau ôl-groniad cynnal a chadw. Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol fod yr ôl-groniad gynnal a chadw yn £332,500 a bod £250,000 yn amcangyfrif o gost cael caban allanol newydd. Mae syrfewyr siartredig cymwysedig o'r Awdurdod yn cynnal arolygon o bob adeilad ysgol fel arfer bob dwy flynedd i benderfynu ar unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen ac i gyfrifo cost y gwaith hwnnw.

Er mwyn gosod caban newydd, byddai angen cael caniatâd gan berchennog y tir drws nesaf i'r ysgol, ac heb hyn, ni fydd cael uned newydd ar dir yr ysgol yn bosib. Yna, byddai angen cwblhau'r camau canlynol:

1. Dymchwel yr uned bresennol
2. Gwaith tanddaearol (sylfeini, rhedeg trydan, dŵr, ceblau ffôn a chyfathrebu a phibellau carffosiaeth ag ati)
3. Uned dosbarth newydd (yn cynnwys toiledau i'r plant yn ogystal i doiled staff/anabl)
4. Caniatâd cynllunio a rheoli adeiladau
5. Gwaith logisteg (Dymchwel ac ail adeiladu wal derfyn trwchus rhwng yr ysgol a'r cae drws nesaf, dymchwel ac ail adeiladu terfyn rhwng y cae drws nesaf a'r lôn), defnydd o sustem 'Trackway' ar y cae drws nesaf, cryfhau'r iard oddi dan y craen a.y.b.
6. Ramp a grisiau haearn i'r caban newydd
7. Gwaith gwelliannu/atgyweirio'r iard
8. Ffi am drefnu a gwneud y gwaith

Mae'r amcanbris o £250,000 yn cynnwys cludo a gosod caban newydd a cysylltu'r gwasanaethau i'r caban.

Gofynnodd rhai rhanddeiliaid os yw benthyciad am 50 mlynedd yn werth da am arian. Mae swyddogion cyllid o fewn yr Awdurdod yn cyfrifo costau benthyca arian am 50 mlynedd.

4. **Awgrymiadau eraill**

Cafwyd awgrymiadau ynglŷn â phosibiliadau eraill o ran dyfodol yr ysgol:

- CyfunoYsgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth

Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch, byddai 70-80 o ddisgyblion yn yr ysgol – mae'r trefniant yn parhau'n rhy fach o safbwynt cynailadwyedd. Ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â lleoedd gwag na chyflwr yr adeiladau.

- Ystyriwch ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag ysgol gynradd arall

Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth, byddai tua 130 o ddisgyblion yn yr ysgol - ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â lleoedd gweigion, cyflwr yr adeiladau nag arbedion cyllidol.

- Defnyddiwch Ysgol Talwrn i hyfforddi penaethiaid

Mae gan yr Awdurdod, ar y cyd â'r consortiwm addysgol rhanbarthol GwE, raglen hyfforddi ar gyfer darpar benaethiaid i ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid (CPCP). Dyma'r llwybr hyfforddi a ddefnyddir ar gyfer penaethiaid yn hytrach na hyfforddiant yn y swydd.

- Dylai'r Awdurdod "fuddsoddi mewn ysgol newydd" yn Talwrn.

Nid yw hyn yn ymarferol gan fod y rhagolwg ar gyfer niferoedd disgyblion yn y dalgylch naturiol yn fach iawn.

5. **Llefydd gweigion**
Yn Ysgol Talwrn, mae 12% o lefydd gweigion er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch [45%], yn gymharol uchel. Mae'r ffaith fod cynifer o'r disgyblion yn dod o du allan i'r dalgylch yn gwneud sefyllfa'r llefydd gweigion yn fwy bregus. Ym mis Medi 2017, roedd llefydd gweigion yn 1% yn Ysgol y Graig tra bod 12% o lefydd gweigion yn Ysgol Talwrn. Mae 19 disgybl yn teithio i mewn i bentref Talwrn o ddalgylchoedd eraill. Nid yw hyn yn sefyllfa gadarn yn y tymor hwy gan y byddai ansicrwydd o allu'r ysgol i gynnal niferoedd presennol yr ysgol ac y byddai hyn yn gwaethygu llefydd gweigion yn yr ysgol.

6. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cefnogi "datganiad diweddar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar ysgolion gwledig". Dylid nodi, fodd bynnag, mai rhagdybiaeth yn erbyn cau yw hyn, ac nid yw'r Côd Trefniadaeth diwygiedig yn dweud na ddylai ysgolion gwledig gau. Yn wir, mae'r Côd Trefniadaeth yn datgan bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig, ac yn wir mae'n cydnabod mai addysg yw'r ystyriaeth bennaf. Noder yma o'r wybodaeth sydd eisoes wedi ei gyflwyno fel rhan o'r adroddiad tra bod y ddwy ysgol yn perfformio'n dda o safbwynt y lefelau disgwyliedig, bod Ysgol y Graig yn llwyddo i gael canrannau uwch i lefel 5+ sydd yn awgrymu bod Ysgol y Graig yn llwyddo i ymestyn disgyblion yn dda ac yn cwrdd â lefelau uwch na'r lefelau ar gyfer Ynys Môn a Chymru. Yn ogystal, nid yw Ysgol Talwrn ar y rhestr o ysgolion gwledig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Nid yw'r Côd Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig wedi dod i rym eto ond mae'r Awdurdod yn ceisio cyfarch ei gynnwys.

**7. Amgylchedd**
Pryder gan rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Talwrn yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon, Mae cyfrifiadau'n dangos na fyddai'r defnydd o hyd yn oed 2 fws yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd na chau Ysgol Gynradd Talwrn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod 45% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn teithio i'r ysgol o du allan i'r dalgylch.

8. **Effaith posib ar y gymuned**
Yr effaith posib o gau Ysgol Talwrn ar y gymuned oedd yn poeni nifer o randdeiliaid. Dyma rai o'r sylwadau a dderbyniwyd:

- Mae Ysgol Talwrn yn sylfaen i Gymdeithas leol ac mae hefyd yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref ".
- Dylai'r Ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned
- Mae Eisteddfod y pentref yn rhoi cyfle i bobl ifanc feithrin hyder trwy berfformio ar y llwyfan. Byddai colli'r ysgol yn arwain at ddiwedd yr Eisteddfod
- Mae'r ysgol yn rhan ganolog o fywyd y pentref.
Mae'r ysgol wedi'i leoli'n ddelfrydol ar gyfer astudiaethau lleol.
Yr ysgol yw calon ac asgwrn cefn y gymuned.
- Byddai cau'r ysgol yn effeithio ar ddyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned leol a thu hwnt.
- Mae Neuadd y Pentref yn dibynnu ar yr ysgol
Mae hyn yn wir ond dim ond oherwydd nad yw neuadd yr ysgol yn ddigon mawr i fodloni'r gofynion presennol. Cynhelir y Cylch Meithrin yno sy'n annibynol o'r ysgol.

O ran yr honiad fod 'ysgolion yn galon y gymuned' ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau, derbynnir bod hyn yn her. Er hynny, mae esiamplau penodol lle

bo ysgol newydd wedi creu cymuned 'ehangach'. Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau. Mae eisteddfodau yn parhau mewn pentrefi ar Ynys Môn lle nad oes ysgol e.e Marianglas.

**9.2 Ysgol y Graig**

1. **Y Gymraeg**
Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr asesiad effaith Ieithyddol

2. **Cludiant**
Mae'r "sefyllfa draffig yn Ysgol y Graig yn beryglus" meddai rhanddeiliaid. Cwblhawyd asesiad traffig o'r ffyrdd o gwmpas Ysgol y Graig ar ôl cwblhau Lôn Gyswllt Llangefni. Roedd yr asesiad yn cadarnhau fod llai o draffig yn teithio heibio i Ysgol y Graig ers agor y ffordd newydd. Er enghraifft yn y bore, mae 114 o gerbydau a oedd yn pasio yr ysgol nawr yn defnyddio'r ffordd newydd at neu o'r Ysgol/Coleg Menai. Cyn adeiladu'r ffordd newydd, roedd yn rhaid i bob un o'r 114 cerbyd yma basio heibio i'r ysgol. Mewn cymhariaeth, mae 29 o gerbydau yn defnyddio'r lôn newydd fel cysylltiad rhwng y B5420 Lôn Penmynydd a'r B5109 Lôn Talwrn. Mae agor y ffordd newydd felly wedi gwella'r sefyllfa ar y briffordd gyhoeddus o flaen yr ysgol, ond gwaetha'r modd, mae parcio ger yr ysgol yn parhau yn broblem. Felly, os fydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gwblhau a bydd yn cynnwys y sefyllfa o rhan traffig o gwmpas yr ysgol a pharcio.

3. Dywedodd eraill byddai cerdded i Ysgol y Graig o bentref Talwrn yn beryglus. Cydnabyddir y pryder hwn. Os fydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gwblhau a bydd yn cynnwys y daith cerdded i Ysgol y Graig. Petai hyn yn cael ei wneud cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud ei benderfyniad, gellid dadlau fod yr Awdurdod wedi gwneud penderfyniad o flaen llaw. Ni ellir rhagdybio'r broses ond mae teithiau cerdded tebyg yn rhannau eraill o Fôn wedi cael eu hasesu i fod yn beryglus oedd yn ei dro'n golygu fod yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r plant.

4. Nid oedd rhai rhieni'n awyddus i'w plant bach fynd ar fws i Ysgol y Graig os yw'r cynnig yn cael ei wireddu. Er hynny, os yw'r cynnig yn cael ei wireddu, ni fyddai'r plant o angenrheidrwydd yn teithio ar fws a gallent deithio mewn tacsi. Mae plant 4-11 oed yn teithio ar fysus yn barod e.e. o Lanfachraeth, Llanddeusant, Rhydwyn a Llanfairynghornwy i Ysgol Rhyd y Llan ac o bentrefi Penmynydd a Star i Ysgol Llanfairpwll.

5. Fe roddir ystyriaeth i gyflwr y cae chwarae a thrwsio'r tyrbin gwynt.

6. Os fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, efallai byddai'n gyfle i ddatblygu arweinyddion i'r dyfodol yn yr ysgol e.e. rheolwr / is-bennaeth yn edrych ar ôl y cyfnod Sylfaen.

**9.3 Sylwadau Cyffredinol**

Derbyniwyd sylwadau oedd yn gyson ar draws yr ysgolion ac fe ymatebir i'r rhai mwyaf cyffredin isod.

- Roedd nifer o sylwadau ynghylch y Gymraeg ac yn cwestiynu effaith posib cau Ysgol Talwrn ar yr iaith. O ystyried fod 78% o ddisgyblion Ysgol y Graig yn siarad Cymraeg o'i gymharu a 60% yn Ysgol Talwrn, gellir dadlau byddai cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Graig yn cryfhau'r Gymraeg.
- Yn ogystal, yn ôl adroddiad Cylch Meithrin Ysgol Talwrn 2017, roedd "bron pob un o'r plant [16 ohonynt] o darddiad gwyn Prydeinig ac nid oes un ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith." Mae hyn yn awgrymu dirywiad yn niferoedd y plant sy'n siarad Cymraeg yn y dalgylch.
- Roedd eraill yn dweud bod maint ysgol yn effeithio ar ansawdd y Gymraeg. Mae yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg. Bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith. Yn ogystal, mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod ysgolion llai yn fwy effeithiol mewn perthynas â hyrwyddo safonau uchel yn y Gymraeg.
- Cyflwynir y sylw bod ysgolion mwy yn llai effeithiol mewn perthynas â chreu 'ymdeimlad o deulu' ac nad oes yr un cyfle i'r plant gael y cyfle i gynrychioli'r ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn wir - mae trefniadau mewn ysgolion cynradd i sicrhau cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfranogi e.e. timau blynyddoedd, corau oedran penodol.
- Honnir bod 'ysgolion yn galon y gymuned' ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau. Derbynnir bod hyn yn her ond mae esiamplau penodol lle bo ysgol newydd wedi creu cymuned 'ehangach'. Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau.

O ran y Siarter Iaith yr Awdurdod, mae Ysgol y Graig wedi cyrraedd y safon Aur ac mae Ysgol Talwrn wedi cyrraedd at y safon Efydd.

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn unol â'r asesiad ieithyddol o'r cynnig dan sylw, bydd yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (+4).

## 10. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Cyllidir costau cyfalaf unrhyw ysgol newydd a adeiladir dan Band A o raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau. Darperir 50% o'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru drwy grantiau cyfalaf a benthyca gyda chefnogaeth (cyllidir ad-daliadau dyled blynyddol a chostau llog yn y Grant Cymorth Refeniw). Mae'n rhaid cyllido'r 50% sy'n weddill gan yr Awdurdod Lleol drwy unrhyw incwm a gynhyrchir drwy werthu hen safleoedd ysgolion a drwy fenthyca di-gefnogaeth lle mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido'r gost flynyddol o ad-dalu dyled a llog blynyddol.

Mae adeiladu ysgolion newydd yn fuddsoddiad cyfalaf sylweddol a rhaid i'r gwerthusiad ariannol o'r opsiynau ystyried y rhwymedigaeth refeniw i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod y baich ariannol o adeiladu ysgolion newydd i genedlaethau'r dyfodol cyn lleied â phosib. Mae adeiladu ysgolion newydd mwy hefyd yn arwain at economïau maint a chostau refeniw llai.

Mae'r gostyngiad yng nghostau refeniw hefyd yn ffactor bwysig yn y gwerthusiad ariannol gan fod yr arbedion a gynhyrchir yn cyfrannu tuag at y costau cyllido cyfalaf ychwanegol.

Cynhyrchir arbedion refeniw gan fod rhedeg un ysgol fawr yn llai costus yn nhermau cynnal a chadw adeilad ac ynni, costau rheoli llai (un Pennaeth yn lle dau) a gellir gosod meintiau dosbarthiadau i'r lefel orau posib sy'n gostwng costau dysgu.

Mae'r gwerthusiad ariannol yn ystyried y gost o gyllido'r benthyciad, yr arbedion refeniw a gynhyrchir a'r costau ychwanegol o gludo disgyblion i'r ysgol newydd. Er mwyn ymgymryd â'r gwerthusiad ariannol, gwnaed y rhagdybiaethau isod.

- Fe gyllidir benthyciadau i gyllido'r ysgolion newydd dros gyfnod o 50 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 2%.
- Fe gyllidir benthyciadau i gyllido'r costau cynnal a chadw ôl-groniad dros gyfnod o 20 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 4%.
- Roedd y graddfeydd llog yn seiliedig ar y raddfa benthyca gyfredol.
- I gyfrifo costau refeniw'r ysgol newydd, defnyddiwyd y wybodaeth gyfredol ynglŷn â niferoedd disgyblion, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgiadol arbennig disgyblion, ac ati, er mwyn gwneud dyraniad amcangyfrifiedig ar gyfer yr ysgol newydd.
- Ni chynhwyswyd costau unwaith ac am byth yn y gwerthusiad ariannol, e.e, costau diswyddiadau, diogelu cyflogau a chostau cynnal y gyn safleoedd. Fe gymerir y rhain i ystyriaeth pan lunnir y cynllun busnes manwl o'r opsiwn y cytunir arno.

Ni fyddai cynnal y 2 ysgol gyfredol yn arwain at gostau cyfalaf sylweddol, ond byddai angen rhoi sylw i'r cynnal a chadw ôl-groniad y ddwy ysgol o £369k, gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i Ysgol Talwrn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Fe all gostau ychwanegol godi wrth dalu i gludo plant i ysgolion arall, sydd y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti, yn enwedig yn Ysgol Y Graig, ond mae'n anodd pennu'r rhain ar yr adeg yma ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad.

Byddai estyniad i Ysgol Y Graig i gymryd lle Ysgol Talwrn yn ddrutach ond be wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Talwrn.

Fe welir yn y Tabl isod ganlyniadau'r gwerthusiad ariannol o'r 2 opsiwn :-

| | Opsiwn 1<br>Gwneud Dim | Opsiwn 2<br>Estyniad i Ysgol Y Graig a chau Ysgol Talwrn |
|---|---|---|
| Amcangyfrif Cost Cyfalaf | £0 | £3,870,660 |
| Cost cynnal a chadw ôl- groniadol | £369,000 | £0 |
| **Cyfanswm Costau Cyfalaf** | **£369,000** | **£3,870,660** |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £0 | (£1,935,330) |
| Derbyniadau Cyfalaf | £0 | (£140,000) |
| **Benthyca Di-gefnogaeth Net** | **£369,000** | **£1,795,330** |
| **Rhwymedigaethau Refeniw** | | |
| Cost flynyddol Darpariaeth Refeniw Isaf | £18,450 | £35,910 |
| Cost Llog Blynyddol @ 2.3% | £8,490 | £41,290 |
| Costau Cludo Ychwanegol | Heb ei gyfrifo | £28,000 |
| **Cyfanswm Costau Refeniw Ychwanegol** | **£26,940** | **£105,200** |
| Arbedion Refeniw | £0 | (£39,540) |
| **Costau Refeniw Ychwanegol Net** | **£26,940** | **£65,660** |
| | | |

Noder bod cyllideb yr Awdurdod yn cael ei rannu rhwng yr ysgolion drwy eu trin yn yr un ffordd drwy fformiwla. Mae cyllideb ysgolion yn cael ei bennu ar sail fformiwla cymhleth sy’n ystyried nifer o ffactorau yn ychwanegol i nifer y disgyblion yn yr ysgol ym mis Medi o’r flwyddyn ysgol penodol honno.

Bydd lleoliad adeilad yn amodol ar ganfod safle ac astudiaethau dichonoldeb o’r safleoedd hynny cyn eu hasesu a’u sgorio er mwyn dewis opsiwn ffafredig. Felly ar hyn o bryd ni wyddys beth fydd safle na chyfeiriad unrhyw adeilad newydd.


Bydd yr ysgol gynradd yn parhau i fod yn un cyfrwng Cymraeg ac yn ysgol gymunedol, a’r Awdurdod Lleol fydd yr awdurdod mynediad i bob un ysgol gynradd, beth bynnag fydd y cyfluniad terfynol.

Byddai llwybrau teithio a chludiant i unrhyw ysgol newydd yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod adeiladu. Gellid dadlau byddai asesu’r rhain cyn i’r Pwyllgor Gwaith wneud y penderfynaid terfynol yn edrych fel petai’r Awdurdod wedi gwneud y penderfyniad yn barod.

O ran y llwybrau cerdded i safle’r ysgol arfaethedig newydd, byddai angen cynnal asesiad diogelwch o’r llwybrau hyn yn dilyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor.

Petai rhan newydd i’r ysgol gynradd yn cael ei hadeiladu, byddai newid yn nhrefniadau teithio i ddysgwyr o gyfeiriad Talwrn. Byddai swyddogion yr Awdurdod yna’n penderfynu’n ffurfiol pa un ai i ddarparu cludiant i Ysgol Y Graig, ar ôl asesiad diogelwch o’r llwybrau teithio.

Petai’r cynnig yn cael ei weithredu a bod ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu ac yn agor yn 2021, byddai’r effaith ar niferoedd fel a ganlyn (mae hyn yn cymryd byddai rhieni yn caniatáu i’w plant symud i’r ysgol gynradd newydd) :




## 11. YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

Cafodd Strategaeth Ynni'r Awdurdod ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn 2017. Nod y strategaeth yw lleihau allyriadau carbon yr Awdurdod o 15% erbyn 2022.

Gweler isod wybodaeth am wariant yr Awdurdod ar danwydd a thrydan, dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, am yr ysgolion:

| | Gwariant (ar drydan a thanwydd) | | | Cyfartaledd (y flwyddyn) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cost** | **Y disgybl** | **Y $m^2$** |
| **Y Graig** | £15,208 | £15,362 | £13,790 | £14,787 | £44.14 | £5.87 |
| **Talwrn** | £4,228 | £4,634 | £3,233 | £4,032 | £87.65 | £13.35 |

Gweler bod y gwariant y disgybl a gwariant y medr sgwâr ($m^2$) yn uwch yn Ysgol Talwrn.

Mae'r tabl isod yn manylu ar allyriadau carbon deuocsid o'r ysgolion dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf:

| | Tunnell $CO_2$ (trydan a thanwydd) | | | Cyfartaledd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **(tunnell $CO_2$)** | **Y disgybl** | **Y $m^2$** |
| **Y Graig** | 65 | 58 | 61 | 61 | 0.184 | 0.024 |
| **Talwrn** | 15 | 26 | 14 | 18 | 0.397 | 0.060 |

Gweler bod yr allyriadau carbon deuocsid y disgybl ac allyriadau carbon deuocsid y fedr sgwar ($m^2$) uchaf yn Ysgol Talwrn.

## 12. CASGLIADAU AC ARGYMHELLIAD

12.1 Ceisir isod grynhoi'r prif faterion a gyflwynir yn yr adrannau blaenorol a cheisio defnyddio hynny i gyflwyno argymhelliad ar gyfer sylw’r Pwyllgor Gwaith.

12.2 Dygir sylw yn yr adroddiad at y materion allweddol a ganlyn.

i. Mae safonau yn y ddwy ysgol yn debyg o safbwynt y cyrhaeddiad disgwyliedig (Lefel 4+). Serch hynny, mae tystiolaeth dros y tair blynedd ddiwethaf yn nodi bod Ysgol y Graig wedi llwyddo i ymestyn canran uwch o ddisgyblion i lefelau uwch yn y pynciau craidd. Yn sgîl hyn ni fyddai uno yn cael effaith negyddol ar safonau.

ii. Byddai uno yn gwneud defnydd gwell o adnoddau’r Cyngor ac yn unioni cost y pen.

iii. Byddai uno’r ddwy ysgol yn gallu creu’r amodau i’r Pennaeth gael amser digyswllt digonol ar gyfer arweinyddiaeth.

iv. Byddai dod â’r ddwy ysgol ynghyd yn rhoi sylw i’r ôl-groniad cynnal a chadw ac yn darparu adnodd unfed ganrif ar hugain ar gyfer defnyddwyr yr ysgol. Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y ddwy ysgol yn £369k gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i Ysgol Talwrn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Cydnabyddir fodd bynnag y gallai costau cludiant ychwanegol ddeillio o gludo plant ond mae’n anodd ar y pwynt hwn i bennu'r rhain ac o ganlyniad nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad. Cydnabyddir hefyd y byddai estyniad i Ysgol Y Graig yn ddrutach na’r drefn gyfredol ond fe wrthbwysir y gost ychwanegol yn rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a’r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Talwrn.

12.3 Yn sgîl yr uchod, argymhellir cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn. Gwneir hyn trwy

- ddefnyddio’r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a’i addasu;
- codi ‘Bloc’ newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
- ystyried adleoli’r ddarpariaeth Dechrau’n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.

Byddai’r ‘bloc’ newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.


## 13. ADBORTH AR LEIN

Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir isod grynodeb o'r arolwg.


Rydym yn ddiolchgar i'r 10 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg gyda chynrychiolaeth o'r ddwy ysgol dan sylw.

Mae ymateb yr Awdurdod i nifer o'r pwyntiau sy'n cael eu codi yn yr arolwg ar lein wedi eu cynnwys yn rhan 9 o'r adroddiad.

**Holwyd y rhanddeiliaid pa grŵp roeddent yn eu cynrychioli, a dyma'r ymateb:**




**Dyma grynodeb o gynrychiolaeth yr ysgolion dan sylw, gyda rhai unigolion wedi dewis mwy nac un ysgol.**




**Holwyd y rhanddeiliaid os yn eu barn nhw, a fydd cynnig i ehangu Ysgol y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn cael effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg?**

| Bydd effaith negyddol | Dim effaith negyddol |
|---|---|
| 70% | 30% |

**Dyma grynodeb o brif fesurau lliniaru a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid i leihau'r effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg, os cymeradwyir y cynnig.**

| |
|---|
| Ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg gan fod nifer llai o ysgolion yn haws i'w reoli. |
| Ni all. Mae ymestyn capasiti mewn un ysgol i ddarparu lle i blant o ysgol arall yn cael effaith niweidiol ar eu haddysg ac yn ei dro bydd yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. |
| Mae Ysgol Talwrn yn ganolog i gymuned Gymraeg y pentref. Bydd cau'r ysgol yn gamgymeriad mawr fydd yn lladd diwylliant yr iaith Gymraeg. |
| Bydd defnydd yr iaith yn lleihau a bydd maint y dosbarthiadau'n rhy fawr i sicrhau defnydd o'r iaith. |
| Dim ond drwy gadw'r ysgol ar agor fyddwch chi'n sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg yn y pentref. |
| Byddai'n rhaid i chi fuddsoddi'n drwm mewn gweithgareddau cymunedol h.y. eisteddfod. |
| Cadw Ysgol Talwrn ar agor |


**Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r uchod am y pryderon am yr Iaith Gymraeg**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir - yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion bydd y Cyngor yn rhoddi ystyriaeth i gydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau.

Mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn  ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.
Bydd yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.


**Holwyd y rhanddeiliaid 'Yn eich barn, pa fath o berthynas sydd gan yr ysgol a'r gymuned leol?'**





**Rhestrwch aelodau o'r gymuned sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gyfrannu at gyfoethogi profiadau dysgu.**

| |
|---|
| Ddim yn siŵr |
| Mae ‘na nifer |
| Mae’r Ysgol yn ganolog i nifer o weithgareddau’r pentref. Gyda’r Ysgol yn chwarae rhan allweddol yn lwyddiant Eisteddfod y Talwrn. Mae’r Ysgol ar Athrawon (presennol a'r gorffennol) yn hynod gefnogol o’r Eisteddfod sy’n ganolog i ddyfodol yr iaith Gymraeg a’n diwylliant. |
| Mae ‘na nifer o aelodau’r gymuned sy’n ymweld â’r gymuned sy’n ymweld â’r ysgol. Mae ‘na dipyn mwy na sydd o Langefni sy’n ymweld ag Ysgol y Graig yn reolaidd. |
| Ansicr gan fod fy merch yn y cylch meithrin ar y funud ac ni fydd yn dechrau ysgol yn Talwrn tan y flwyddyn nesaf. |
| Y Parchedig, athro cerdd. |
| Nifer o'r gymuned yn ymweld i gyfoethogi dysgu. |

**A ydych yn ymwybodol o weithgareddau sy’n cael eu cynnal yn eich ysgol yn wythnosol / fisol, tu allan i oriau ysgol? Ticiwch os gwelwch yn dda.**



## Pa gyfleusterau / gwasanaethau eraill sydd ar gael yn nalgylch yr ysgol?




## Pa fath o ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn nalgylch eich ysgol, heblaw am yr ysgol, os y gwyddwch?

| |
|---|
| Ddim yn gwybod |
| Gofalwyr plant sy'n annibynnol i'r meithrin yn yr ardal |
| Dim |
| Nid oes unrhyw ddarpariaeth gofal plant arall ar gael |
| Cylch meithrin yn neuadd y pentref. |
| Cylch Meithrin. |

**Yn eich barn, pa fath o effaith fydd y cynnig yn ei gael ar deuluoedd lleol?**

| |
|---|
| Bydd yn dod a mwy o deuluoedd lleol o wahanol rannau. |
| Mae gormod o blant yn Ysgol y Graig, yn ogystal gan fod cynlluniau am dai newydd, bydd y dosbarthiadau'n fwy, mae traffig eisoes yn broblem gyda cheir parcio bob man! |
| Mae gan Coleg Menai estyniad enfawr a bydd y traffig oddi yno hefyd yn fater anferth gan fod goryrru yn tuag at y coleg eisoes yn broblem!! |
| Bydd Talwrn yn colli ei galon gymunedol ac ni fydd gan blant yno enw mwyach, dim ond gosodiad cyson gan y byddai'r Graig yn enfawr ac mae'r plant yn dod yn anadnabyddus. |
| Bydd effaith andwyol gyda'r angen i deithio fydd yn ei dro'n cynyddu'r ôl troed carbon. |
| Mi fydd cau ysgol Talwrn yn anhwylus i deuluoedd wrth orfod teithio i fynd/nol plant or ysgol yn Langefni.<br><br>Bydd yn cael effaith ar blant wrth golli cysylltiadau lleol. |
| Bydd yr effaith yn niweidiol iawn i deuluoedd lleol gyda'r angen i deithio i Ysgol Y Graig o'r pentref. Bydd hefyd yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y teuluoedd lleol hynny |
| Rwy'n credu y bydd yn dinistrio teuluoedd lleol, yr ysgol yw canolbwynt y gymuned. Bydd plant a rhieni yn colli'r gallu i gerdded i'r ysgol. |
| Bydd yn cynyddu cost, bydd yn cael effaith niweidiol ar eu bywyd cymdeithasol, effeithio prisiau tai, bydd ysbryd cymunedol yn cael ei ddinistrio. Bydd y siop gymunedol yn cael ei effeithio'n andwyol. |
| Bydd cau'r ysgol yn golygu llai o deuluoedd gyda plant yn dod i'r pentref |

**Beth yn eich barn fydd yr effaith yn gyffredinol ar gymunedau?**

| |
|---|
| Bydd yn dod â chymunedau at eu gilydd drwy i rieni siarad gyda'i gilydd wrth giatiau'r ysgol. |
| Bydd Talwrn yn colli rhan hollbwysig o'i gymuned!! Yn ogystal, bydd ei chadw'n agored yn rhywle i anfon gorboblogi o'r Graig mewn ychydig o flynyddoedd!!! |
| Bydd Talwrn yn ddiffaith, mae gan Langefni 2 ysgol (gynradd) fawr yn barod. |
| Effaith na ellir ei fesur. Yr ysgol yw calon y gymuned ac mae hi'n hollbwysig ar gyfer ffyniant y gymuned. |
| Bydd cau'r ysgol yn chwalu'r gymuned, ac yn cael effaith ar weithgareddau'r gymuned. |

| |
|---|
| Rydw i yn rhagweld pobl ifanc fel ni yn symud allan o'r pentref er mwyn gallu dewis yr addysg orau i'n plant. |
| Yr ysgol yw calon y gymuned. Ni ellir amcangyfri'r effaith andwyol. |
| Bydd y gymuned yn dioddef yn enfawr trwy golli'r ysgol leol, bydd yn rhwygo'r galon allan o bentref Cymreig ffyniannus a bydd Talwrn yn colli ei eisteddfod. |
| Bydd yn cael effaith andwyol ar y gymuned leol. |
| Lladd y gymuned. |

**Unrhyw sylwadau pellach**

| |
|---|
| Mae uno Ysgol Talwrn gydag Ysgol Y Graig yn syniad da gan ei fod yn rhoi safon gwell o addysg i blant lleol sydd yn bwysicach na chadw adeiladau. |
| Ni ddylid cau'r ysgol, yn enwedig pan nad oes capasiti mewn ysgol arall. Mae cynyddu'r gallu mewn ysgol arall yn lleihau ansawdd yr addysg. |
| Fel cwpwl lleol sydd wedi derbyn addysg mewn ysgolion cynradd cymunedol yn lleol - yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd addysg mewn ysgol glos gymunedol.<br><br>Fel cwpwl lleol sydd yn gobeithio cael plant, ac yn gobeithio eu hanfon i Ysgol Talwrn, byddai cau'r ysgol yn gwneud i ni ystyried ail leoli er mwyn sicrhau cael yr addysg ydym yn dymuno i'n plant. Mae cael ysgol gymunedol glos fel Talwrn yn ganolbwynt i'n cymuned, ac rydw i yn bryderus am yr effaith fydd cau'r ysgol yn cael ar y gymuned.<br><br>Dwi o'r farn fod plant Sy'n mynychu yr 'Super Schools' yn colli allan gymaint, ddim yn cael y chwarae teg y cawsom ni fel plant mewn ysgol gymunedol.<br><br>Rydym yn llawn werthfawrogi yr addysg wych gawsom ym Modffordd a Talwrn gan roi y cychwyn gorau i ni mewn bywyd, gan gael pob cyfle oedd yn cael ei gynnig i ni. |
| Byddai'n benderfyniad gwael i gau yr ysgol hon yn enwedig gan fod angen cynyddu capasiti yn Ysgol Y Graig. Bydd yr angen i gynyddu capasiti yn arwain at effaith andwyol ar lefel a safon yr addysg sydd ar gael yn yr ysgol. |
| Ystyriwch efallai uno Talwrn gydag ysgol wledig arall ac nid Ysgol Y Graig. Mae Talwrn yn ysgol wych ac mae ganddi gefnogaeth yr holl rieni, mae'n hanfodol ei chadw'n agored. |
| Mae'r prosiect cyfan yn ymddangos yn wastraff o arian ac amser. Ni yw'r defnyddwyr terfynol, ac nid ydym am i Dalwrn gau. Gwrandewch ar y disgyblion a'r rhieni, nid yw hyn o fudd iddynt. |

Mae ymateb yr Awdurdod i nifer o'r pwyntiau sy'n cael eu codi yn yr arolwg ar lein wedi eu cynnwys yn rhan 9 o'r adroddiad.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
***ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***

**ADRAN DYSGU**
***LEARNING DEPARTMENT***

# CYNLLUN MODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD ARDAL LLANGEFNI

# ASESIADAU EFFAITH

Ebrill 2018

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr asesiad** | Fersiwn 1 – Ebrill 2018<br><br>Mae'r ddogfen yma yn un weithredol. |
| **Y Swyddog sydd â chyfrifoldeb am yr Asesiad** | Arwyn Williams |
| **Dyddiad Adolygu** | Gorffennaf 2018 (yn dilyn y cyfnod ymgynghoriad statudol). |

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol | 5 |
| 3. | Asesiad Effaith Cydraddoldeb | 8 |
| | 3.a Yr Asesiad Effaith | 9 |
| 4. | Asesiad Effaith Ieithyddol | 15 |
| | 4.a Defnyddio'r Gymraeg yn yr Ysgol | 18 |
| 5. | Asesiad Cymunedol | 28 |
| | 5.a Niferoedd yn yr ysgolion | 29 |
| | 5.b Ffactorau Teithio a Daearyddol | 33 |
| | 5.c Ymateb Cymunedol | 33 |
| | 5.d Mwy o wybodaeth am yr ysgolion | 37 |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal ymgynghoriad statudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Llangefni. Yr ysgolion cynradd sy'n rhan o'r broses ymgynghori dan sylw yw Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol pan maent yn ymgynghori ar gynigion sy'n effeithio ar ein hysgolion, gynnal asesiadau effaith ar y gymuned, cydraddoldeb a'r Gymraeg, gan roddi sylw i'r effaith ar bob ysgol sy'n rhan o'r cynnig i newid a phawb arall y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion (Isle of Anglesey County Council *et al.*, 2016). Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae proses ymgynghori Moderneiddio Ysgolion yn cynnwys cyfarfodydd ymgynghori efo grwpiau amrywiol, rhoi'r ddogfen ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn a rhoi cyfle i randdeiliaid anfon eu sylwadau at swyddogion perthnasol yn yr Adran Ddysgu. Cysylltwyd yn ogystal â grwpiau penodol yn unol â'r rhestr rhanddeiliaid sydd wedi ei gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013).

Aeth adroddiad ar ymgynghoriad Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 26ain Fawrth 2018. Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ynghylch moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac i gynnal ymgynghoriad statudol pellach.

Y cynnig dan sylw yw:

- Ehangu Ysgol y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.

Mae swyddogion Dysgu yn mynd allan i ymgynghori'n statudol rhwng 1af Fai a'r 11eg Fehefin, 2018 a bydd ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal gyda phlant yr ysgolion dan sylw yn ystod yr un cyfnod.

## 2. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a chymryd i ystyriaeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) byddent yn rhoddi sylw i greu cymunedau mwy gwydn, yn cyfathrebu efo'n cymunedau, sefydlu partneriaeth leol, a chynnwys ein cymunedau yn y gwaith cynllunio tymor hir. Y bwriad yw ein bod yn dilyn proses o'r fath er mwyn galluogi darparwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen, yn gallu annog rhannu adnoddau ac arwain at wariant mwy effeithlon hirdymor.

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae Cynllun Llesiant wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft yn bresennol o dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Bydd trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ymateb i flaenoriaethau'r Cynllun Llesiant.

Amlinellir isod sut y rhagwelir y Bydd prosiect ar gyfer ysgolion cynradd yn ardal Llangefni yn cyfrannu tuag at y 7 nod Llesiant.

| 7 nod llesiant | Sut bydd y cynnig ar gyfer ardal Llangefni yn cyfrannu tuag at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Ffyniannus<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal | Bydd y prosiect yn sicrhau bod adeiladau yn addas i bwrpas a sicrhau bod capasiti a photensial pob disgybl i lwyddo yn cael ei gyflawni.<br><br>Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gynyddu gwerth pob punt y mae'r Awdurdod Lleol yn ei wario, a gellir gwireddu hyn drwy'r defnydd o fanteision cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori manteision cymunedol (e.e. cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleol) ym mhob prosiect Moderneiddio Ysgolion gan gynnwys prosiect Llangefni.<br><br>Mae hi hefyd yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 i ysgolion hyrwyddo cyfle cyfartal ac osgoi gwahaniaethu. |
| Cydnerth | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd efo siroedd eraill y |

| | |
|---|---|
| | Gogledd, ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd<br><br>Rydym yn ymgymryd â phroses ymgynghori statudol i ymateb i bryderon a chanfod barn. Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd grŵp rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu, er mwyn parhau'r â'r cydweithio a'r cyfathrebu rhwng yr Awdurdod a'r rhanddeiliaid.<br><br>Bydd hefyd gyfle ar wahân, yn ogystal i blant gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, a chyfrannu trwy gydol oes datblygu y prosiect.<br><br>Yn ogystal bydd Corff Llywodraethu yn cael ei sefydlu ac yn cyfrannu tuag at ddatblygiad y prosiect.<br><br>Bwriad y rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw cyfarnnu tuag at y Strategaeth Cynllunio Lle (Place Shaping) trwy hyrwyddo'r egwyddor o berchnogaeth leol ar gyfer datblygu cymunedol. |
| Iachach | Mae'r Asesiad Cymunedol sy'n rhan o'r pecyn yma yn cadarnhau bod ysgolion presennol yn ardal Llangefni yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.<br><br>Ymhellach i hyn, bydd ysgolion sy'n cael eu haddasu / adeiladu yn sgîl rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael eu defnyddio fel hybiau cymunedol sy'n hyrwyddo cymunedau iachach.<br><br>Bydd yr ysgolion sy'n cael eu hadeiladu / haddasu yn sgîl y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cwrdd â safonau Iechyd a Diogelwch a Llesiant. |
| Cymunedau cydlynus | Fel rhan o'r broses ymgynghori anstatudol mae'r rhanddeiliaid wedi cael y cyfle i leisio barn a chynnig sylwadau. Mae cyfle pellach yn sgîl yr ymgynghoriad statudol sy'n mynd rhagddo i fynegi barn a holi swyddogion ymhellach am y cynnig. Rhagwelir mwy o |

| | |
|---|---|
| | weithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau mewn perthynas â lles, iechyd a chyflawni potensial.<br>Bydd yr ysgol hefyd yn cyfrannu tuag at isadeiledd cymunedol yr ardal. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg ynghlwm. Mae'r ddwy ysgol yn ardal Llangefni, yn ysgolion cyfrwng y Gymraeg.<br><br>Bydd yr ysgol newydd sy'n rhan o'r cynnig yn parhau gyda'r nod o gryfhau'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol, ac yn ceisio dylanwadu ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn gymdeithasol. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang | Hyd yma, mae moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig wedi eu halinio â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, gweithio gyda'n holl rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall.<br><br>Mae addasiadau i'n hysgolion yn cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni. |

## 3. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Pan fo cynnig i newid trefniadau presennol yn digwydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith 'polisïau ac ymarferion'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effeithiau tebygol neu wirioneddol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau a amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth briodol' i'r canlyniadau asesu hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw'r polisi na'r arfer yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau a amddiffynnir
- ystyried sut mae'r polisi neu'r ymarfer yn hybu gwell cyfleoedd cyfartal
- ystyried a yw'r polisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau

Mae'n angenrheidiol cwblhau asesiadau pan gynigir neu adolygir polisi neu arfer. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Mae'n rhaid i'r awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fydd asesiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor, wrth iddi gefnogi ei waith i ystyried yr angen am:

- ddiddymu gwahaniaethau, aflonyddwch ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad ydynt .

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth lunio achosion busnes moderneiddio ysgolion ac yn ystod y broses o ddatblygu prosiectau. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Er mwyn sicrhau ystyriaeth deg i bawb.

O dan y ddeddf mae'n rhaid rhoi sylw yn benodol i ddileu gwahaniaethau a hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred.

Y data a'r dystiolaeth a gasglwyd i bwrpas yr asesiadau isod oedd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2018. Yn ogystal anfonwyd holiaduron at benaethiaid y 2 ysgol, er mwyn canfod gwybodaeth benodol am yr Iaith a gweithgareddau cymunedol.

### 3.a Yr Asesiad Effaith

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma mae'r Awdurdod wedi cymryd i ystyriaeth yr effaith negyddol a chadarnhaol o'r cynnig.

<table>
<tr><th>Meini Prawf Effaith Cydraddoldeb</th><th>Effaith<br><br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol</th><th>Beth yw'r effaith a beth yw'r dystiolaeth</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td>Oedran</td><td>Cadarnhaol a Negyddol</td><td>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn nodi bod 369 o ddisgyblion (4-11oed) yn mynychu'r ddwy ysgol sef:<br><br>Ysgol y Graig 326<br>Ysgol y Talwrn 43<br><br>Rhagwelir y bydd disgyblion o bob oedran yn cael eu heffeithio gan y newid, gan eu bod yn rhan o'r broses o newid.</td><td>Mae gan Yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg llawn-amser i blant a phobl ifanc o'r oedran 5-16. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau addysg orau i ardal Llangefni, ac yn parhau i gefnogi ysgolion wrth wella safonau addysg, a sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ar gyfer pob grŵp oedran<br><br>Bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal efo cynrychiolaeth o blant y 2 ysgol dan sylw. Bydd cyfle iddynt roi mewnbwn i mewn i'r cynllun moderneiddio ar gyfer eu hardal.<br><br>Os bydd penderfyniad i gau ysgol/ion yn cael ei gymeradwyo bydd cyfle i'r disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau uno, gyda'r rheiny wedi eu trefnu ar y cyd er mwyn sicrhau bod</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>cyfleoedd a phrofiadau yn cael eu rhannu cyn y broses o drosglwyddo.</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Niwtral</td><td>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau bod llai na 7 o blant rhwng y 2 ysgol efo datganiad AAA.<br><br>Dyma’r sefyllfa bresennol yn y 2 ysgol mewn perthynas â chydymffurfio gyda’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Ramp?</th><th>Mynediad rhwydd at doiledau</th><th>2 lawr?</th><th>Lifft</th></tr>
<tr><td>Graig</td><td>Oes</td><td>Oes</td><td>D/B</td><td>D/B</td></tr>
<tr><td>Talwrn</td><td>Mae mynediad gwastad, ond nid ymhob un o’r drysau mynediad</td><td>Oes, ond ystafelloedd cyfyngedig yn yr ysgol yn gyffredinol.</td><td>D/B</td><td>D/B</td></tr>
</table></td><td>Bydd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn y cymorth ychwanegol sy’n ymateb i’w anghenion addysgol unigol.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion.<br><br>Bydd gofynion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol .<br><br>Bydd addasiadau i’r ysgolion presennol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd yn sicrhau bod gan unigolion anabl fynediad llawn i’r ysgol, y cwricwlwm a gwybodaeth - heb gyfyngiad na dibynnu ar eraill i’w cynorthwyo. Bydd hefyd doiled anabledd ac ystafell newid/ymolchi a fydd yn caniatáu i ddisgyblion anabl gyfranogi’n llawn mewn gweithgareddau a bydd yn hybu annibyniaeth gyda sgiliau hunan-gymorth a hylendid.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Cadarnhaol</td><td><table><tr><th>Rhyw</th><th>Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>Bechgyn</td><td>51.5%<br>(168)</td><td>37%<br>(16)</td></tr><tr><td>Merched</td><td>48.5%<br>(158)</td><td>63%<br>(27)</td></tr></table>CYBLD Ionawr 2018</td><td>Bydd mwy o ddisgyblion yn gwella cydbwysedd o ran disgyblion a grwpiau blwyddyn.<br><br>Mae perfformiad yr holl ddisgyblion yn cael ei asesu a’i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, plant sy’n cael prydau ysgol am ddim a phlant mwy abl a thalentog. Gweithredir cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched, a’r grwpiau gwahanol yn seiliedig ar hynny.</td></tr>
<tr><td>Ethnigedd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau’r data isod. Nid yw’r PLASC yn cynnwys manylion y cyfanswm disgyblion ar y gofrestr yn yr achos yma:<table><tr><th colspan="2">Ysgol y Graig</th></tr><tr><td>Gwyn Prydeinig</td><td>92% (264)</td></tr><tr><th colspan="2">Ysgol Talwrn</th></tr><tr><td>Gwyn Prydeinig</td><td>82% (33)</td></tr></table></td><td>Os oes disgyblion o gefndir ethnig arall yn mynychu’r ysgolion, ni fyddent yn cael eu trin mewn ffordd wahanol ar sail eu tras ethnig. Pe byddai staff o gefndiroedd ethnig eraill yn yr ysgol newydd, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tras ethnig.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu gred</td><td>Niwtral / Cadarnhaol</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma.</td><td>Gall y cynnig roddi cyfle i wella dealltwriaeth y disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd yn y disgyblion.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am grefydd/ gred eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau.<br><br>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir. |
| Gogwydd Rhywiol | Niwtral | Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Gogwydd Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn digwydd gyda staff ysgol.<br><br>Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am gogwydd rhywiol eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau.<br><br>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir. |
| Iaith Gymraeg | Cadarnhaol a Niwtral | Mae ffigurau CYBLD Ionawr 2018 yn dangos bod canrannau isod o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref (yn rhugl) 3-11oed.<br><br>Ysgol y Graig<br>78% (293)<br>Ysgol Talwrn | Ni fydd categori ieithyddol yr ysgolion yn newid. Categori Ieithyddol y 2 ysgol yn bresennol yw 'Cymraeg'.<br><br>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 60% (26) | Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Niwtral | Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol. | |
| Newid Rhyw | Niwtral | Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd gyda staff yr ysgol.<br><br>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir. |
| Arall<br><br>Cymdeithasol economaidd.<br><br><br>Ysgolion Bach a Gwledig | | Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod.<br><br>Nid yw un o'r ddwy ysgol dan wedi eu cynnwys yn y rhestr o ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cyhoeddwyd Mehefin 2017 fel drafft)<br><br>Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru (2006)" yn dynodi nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach ac ysgolion mawr, ond "gall fod yn fwy anodd i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith i | Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig, fel pob ysgol yn Ynys Môn, ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw.<br>Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion i'r dyfodol bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i gydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau, a hynny drwy gydweithio. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio’n sylweddol yn nhermau oed a chamau datblygiad ". Mae hyn yn berthnasol i ysgolion llai. Mae hydwythdedd o safbwynt staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy eu maint.</td><td></td></tr>
<tr><td>Niferoedd y plant sy’n gymwys am brydau ysgol di-dal.</td><td>Cadarnhaol</td><td><table><tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>23.62%</td><td>14%</td></tr></table></td><td>Gall y cynnig fod yn gadarnhaol trwy roddi mwy o gyfleoedd i grŵp o ddisgyblion fanteisio ar yr adnoddau a darpariaeth iddynt.</td></tr>
</table>

Yn unol â’r asesiad effaith uchod mae’n ymddangos bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol (+6)[1].

[11] 1. Mae’r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel ‘Negyddol’, ‘Niwtral’ neu ‘Gadarnhaol’.

2. Byddai hyn yn cyfrannu i’r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda ‘Negyddol’ yn sgorio -1, ‘Niwtral’ yn sgorio 0 a ‘Cadarnhaol’ yn sgorio 1.

## 4. Asesiad Effaith Ieithyddol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir - fel prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd yng Nghymru efo presenoldeb cryf o'r Iaith Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad y Gymraeg.

Mae Polisi Iaith Adran Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrywmo i'r nod ac amcanion isod.

**Nod:**

Bod pob disgybl sydd yn mynd trwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

**Amcan Cyffredinol:**

1. Datblygu gallu holl ddisgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

2. Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y gweithlu addysgol a plant a phobl ifanc sydd yn mynychu sefydliadau addysgol o fewn yr Awdurdod ac hefyd fel cyfrwng dysgu.
3. Bydd holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

**Amcanion Penodol:**

1. **Blynyddoedd Cynnar:** Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol ac effeithlon drwy gynnwys dulliau trochi, i bob plentyn beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol i roi sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted â phosibl.

2. **Cyfnod Sylfaen:** Adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y Blynyddoedd Cynnar drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses i ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg erbyn diwedd y cyfnod.

3. **Cyfnod Allweddol 2:**
    - Parhau i ddatblygu medrau y plant yn y Gymraeg a'r Saesneg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith gan sicrhau - trwy gynllunio pwrpasol - lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y Cyfnod;
    - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy'r Canolfannau Iaith Cynradd.

4. **Cyfnod Allweddol 3:**
    - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
    - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
    - bod ymyrraeth briodol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 er mwyn iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol;
    - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA3, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy ddarpariaeth briodol yn CA3.

5. **Cyfnod Allweddol 4:**
    - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
    - sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a Saesneg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll arholiad mewn cymhwyster cydnabyddedig yn y ddwy iaith ar ddiwedd CA4;
    - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
    - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA4 sicrhau eu bod yn derbyn Sylfaen yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth briodol erbyn diwedd y Cyfnod.

6. **Cyfnod Allweddol 5:**
    - Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr ddilyn pynciau trwy'r Gymraeg.
    - Sicrhau bod gan fyfyrwyr ôl-16 wybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy raglenni ymwybyddiaeth iaith cynhwysfawr a chyfoethogi'r Cwricwlwm Cymreig trwy holl ysgolion yr Awdurdod, gan eu datblygu i fod yn ddinasyddion hyderus dwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

7. **Addysg Arbennig:** yn achos disgyblion ag anawsterau dysgu dwys rhoddir hawl i Bennaeth - mewn ymgynghoriad â'r Adran Dysgu - roi ystyriaeth unigol i bob achos, tra'n sicrhau bod disgyblion gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol iddynt ymdopi fel oedolion o fewn eu cymunedau.

**4.a Defnyddio'r Gymraeg yn yr Ysgol**

Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid y 2 ysgol dan sylw i'w holi am y sefyllfa yn eu hysgolion

| | **Ysgol y Graig** | **Ysgol Talwrn** |
|---|---|---|
| Categori Ieithyddol yr ysgolion presennol | Cymraeg | Cymraeg |

| Meini Prawf Ieithyddol | Sylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Demograffeg (Iaith y cartref) | Siaradwyr Cymraeg Rhugl Gartref<br>Ysgol y Graig: 78% (293)<br>Ysgol Talwrn: 60% (26) | Cadarnhaol | Bydd y cynnig yn rhoddi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol. |
| Statws Ieithyddol yr ysgolion presennol | **Y Graig** - Cymraeg<br>**Talwrn** - Cymraeg<br>**Statws y Siarter Iaith** | Niwtral | Gan fod disgyblion yn y ddwy ysgol yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Y Graig** Yn gweithio tuag at Aur<br><br>**Talwrn** Efydd | | yn hyn o beth. Fodd bynnag, dylai datblygu disgyblion hollol ddwyieithog fod yn ganolbwynt parhaus a phwysig mewn Cynllun Datblygu Ysgol.<br><br>1. Bydd trefniant dosbarth yn anelu at ddatblygu anghenion ieithyddol penodol y fintai.<br>2. Bydd tracio disgyblion yn ystyried eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd.<br>3. Bydd adroddiadau'r Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau o ddisgyblion ym mhob mintai iaith.<br>4. Cynnydd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 5. Cynnydd yr ysgol gyda'r Siarter Iaith<br><br>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurdod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. Rhan annatod o weithdrefnau'r siarter yw'r ymwneud â rhieni, Llywodraethwyr a'r gymuned leol. Mae llwyddiant y Siarter Iaith a'i hamcanion yn ddibynnol ar gydweithrediad yr holl randdeiliaid.<br><br>Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 57% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran wedi gostwng dros y degawdau diwethaf - yn 1981 roedd 62% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae ardal Aethwy a Seiriol wedi gweld twf o 2% dros y 30 mlynedd diwethaf (Asesiad Llesiant Ynys Môn 2017) | Cadarnhaol | Angen hybu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg (Asesiad Llesiant Ynys Môn 2017).<br><br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>yn ymwybodol o’r hyn a gyflawnir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er mwyn ystyried sut y gallent gydweithio i hybu’r defnydd o’r Iaith Gymraeg yn y gymuned, a chyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</td>
</tr>
<tr>
<td>Darpariaeth addysg/ asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (7oed) a Cyfnod Allweddol 2(11 oed).</td>
<td>% o ddisgyblion sy’n cyrraedd Deilliant 5 neu uwch yn y Cyfnod Sylfaen mewn sgiliau Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu.
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th></tr>
<tr><td>Talwrn</td><td>83.33</td><td>80</td><td>100</td></tr>
<tr><td>Disgyblion sy’n cyflawni</td><td>5</td><td>8</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Cohort</td><td>6</td><td>10</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Y Graig</td><td>96.23</td><td>84.3</td><td>91.3</td></tr>
<tr><td>Disgyblion sy’n cyflawni</td><td>51</td><td>43</td><td>42</td></tr>
<tr><td>Cohort</td><td>53</td><td>51</td><td>46</td></tr>
</table>
</td>
<td>Niwtral</td>
<td>Gan fod yr holl ddisgyblion yn y tair ysgol yn cael asesiad athro mewn Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid yn hyn o beth.<br><br>Mae adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion yn rhoi sylwadau ar lefaredd, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â’u</td>
</tr>
</table>

Canran o'r disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn y Saesneg

| Ysgol | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Talwrn | 80 | 85.71 | 100 |
| Disgyblion sy'n cyflawni | 4 | 6 | 9 |
| Cohort | 5 | 7 | 9 |
| Y Graig | 92.86 | 84.44 | 92.68 |
| Disgyblion sy'n cyflawni | 39 | 38 | 38 |
| Cohort | 42 | 45 | 41 |

Canran o'r disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf

| Ysgol | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Talwrn | 80 | 85.71 | 100 |
| Disgyblion sy'n cyflawni | 4 | 6 | 9 |

cynnydd at fod yn hollol ddwyieithog.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td>Cohort</td><td>5</td><td>7</td><td>9</td></tr>
<tr><td>Y Graig</td><td>88.1</td><td>82.22</td><td>90.24</td></tr>
<tr><td>Disgyblion sy’n cyflawni</td><td>37</td><td>37</td><td>37</td></tr>
<tr><td>Cohort</td><td>42</td><td>45</td><td>41</td></tr>
</table>
Ffynhonell: Setiau Data Craidd Cymru Gyfan
</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, clwb brecwast, clybiau ar ôl ysgol</td>
<td>
<table>
<tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr>
<tr><td>50% Saesneg<br>50% Cymraeg</td><td>Cymraeg</td></tr>
</table>
</td>
<td>Niwtral / Cadarnhaol</td>
<td>Bydd yr ysgol sydd wedi ei gynnwys yn y cynnig yn parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o’r Iaith Gymraeg a gweithredu’r siarter ac amcanion cyfathrebu a hyrwyddo defnydd anffurfiol o iaith y disgyblion<br><br>Wrth ddefnyddio’r Gymraeg yn bennaf yn y clybiau ac yn ystod amser egwyl yr ysgol, bydd yn parhau i gael</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.</td></tr>
<tr><td>Ymwneud yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg</td><td><table><tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>- Yn weithgar iawn efo’r Urdd – ymweld â gwersylloedd, chwaraeon, Celf a Chrefft, Eisteddfod. Cystadlu gyda gwaith Celf a Chrefft yn Eisteddfod Marianglas yn flynyddol.</td><td>Urdd<br>Eisteddfod y Talwrn</td></tr></table></td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae’r ddwy ysgol bresennol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng y Cymraeg.<br><br>Bydd y cynnig yn galluogi’r plant gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Defnydd o’r ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg</td><td><table><tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>Dim</td><td>Hybu’r iaith ymysg rhieni di-Gymraeg e.e Menter Môn yn cynnal stondin yn ystod nosweithiau</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae’r cynnig dan sylw yn galluogi’r ysgolion i barhau i fod yn adnodd cymunedol er mwyn cynnig y ddarpariaeth o wersi Cymraeg.</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td></td><td>rhieni, rhannu digwyddiadau ar welyfr yr ysgol, cyflwyniad i rhieni newydd am ddwy-ieithrwydd.</td></tr>
<tr><td></td><td>Aelod o staff clwb brecwast (dysgwraig) yn mynychu gwersi a chael ymarfer darllen a Chymraeg lafar gyda’r plant</td></tr>
</table>
</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>Gallu staff addysgu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg</td>
<td>
<table>
<tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr>
<tr><td>Pob aelod o staff yn gwbl rhugl ac hyderus 100%</td><td>Pob aelod o staff addysgu yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 100%</td></tr>
</table>
</td>
<td>Niwtral</td>
<td>Mae’r ddwy ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws ieithyddol.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td>Gallu staff cefnogi i gynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg</td><td><table><tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>Pob aelod o staff yn gwbl rhugl ac hyderus<br>100%</td><td>Pob aelod o staff cefnogi yn cynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg<br>100%</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae’r ddwy ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws ieithyddol.</td></tr>
<tr><td>Canran o lywodraethwyr sy’n gallu siarad Cymraeg</td><td><table><tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>Pob aelod yn gwbl rhugl ac hyderus</td><td>100%</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Bydd cyfansoddiad ieithyddol yn ddibynnol ar broses ethol y Corff i’r dyfodol. Er hynny bydd y Corff Llywodraethu yn cefnogi nod ac amcanion polisi Iaith yr Awdurdod.</td></tr>
<tr><td>Iaith a ddefnyddir fwyaf yn ystod cyfarfodydd<br><br>Llywodraethwyr, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon a Staff</td><td><table><tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr><tr><td>Cymraeg</td><td>Cymraeg</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Bydd y cyfarfodydd yn cefnogi nod ac amcanion polisi Iaith yr Awdurdod.</td></tr>
</table>

Yn unol â'r asesiad uchod bydd yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (+4).[2]

---

1. [2] byddai'r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.

2. Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio -1, 'Niwtral' yn sgorio 0 a 'Cadarnhaol' yn sgorio 1.

## 5. Asesiad Cymunedol

Mae'r asesiad hwn yn ystyried yr effaith y gallai'r cynnig cyfredol ei chael ar deuluoedd a'r gymuned leol.

**Methodoleg**

Rydym fel Awdurdod yn ystyried yn ofalus effaith cymunedol y cynnig ar pob ysgol. Holwyd penaethiaid y 2 ysgol am berthynas yr ysgol â'r gymuned a'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol. Fel y cyfeirwyd uchod mae'r ddogfen yn un weithredol a bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu tuag at yr asesiad effaith. Darperir manylion pellach isod

**Ysgolion Bro**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod hyn o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

**Ysgolion lleol (dalgylchoedd)**

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion (Cynradd) yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol. Bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgylch yn gasgliad o strydoedd.

**Ysgolion gwledig**


Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

**5.a Niferoedd yn yr ysgolion**

| Ysgol | Y Graig | Talwrn |
|---|---|---|
| **Ystod oedran** | 3 – 11 | 4 - 11 |
| **Capasiti ac eithrio darpariaeth feithrin** | 330 | 49 |
| **Niferoedd Meithrin – Ionawr 2018** | 52 | 7 |
| **Niferoedd ar y gofrestr –Ionawr 2018 (4-11)** | 326 | 43 |
| **Lleoedd dros ben** | 4 (1%) | 6 (12%) |
| **Disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch (Medi 2017)** | 12% | 45% |

*Niferoedd y meithrin yn y Cylch Meithrin


Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion (4-11oed) yn y ddwy ysgol dros y 6 mlynedd diwethaf yn Ionawr bob blwyddyn. Ni chynhwysir disgyblion meithrin yn y rhagolygon:




| Ysgol | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Talwrn** | 37 | 36 | 50 | 53 | 42 | 44 | 47 | 47 | 43 |
| **Y Graig** | 297 | 293 | 315 | 310 | 327 | 333 | 333 | 339 | 326 |


Mae cyfanswm y disgyblion wedi cynyddu ers 2009 i 386 yn 2016. Bu nifer y genedigaethau'n uwch yn y blynyddoedd diweddar, mewn cymhariaeth â gweddill Ynys Môn a Chymru, ac mae nifer y disgyblion yn y blynyddoedd is wedi cynyddu.

Yn ôl ystadegau gan y gwasanaeth iechyd, mae nifer y plant o dan bedair oed hefyd yn uwch. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Y Graig yn cynyddu tra fydd niferoedd yn aros yn gyson yn Ysgol Talwrn dros y blynyddoedd nesaf – gweler y graff isod.




Yn unol â'r uchod, rhagwelir y bydd nifer disgyblion yn amrywio fel a ganlyn:

| Ysgol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Talwrn** | 42 | 42 | 36 | 37 | 35 | 32 |
| **Y Graig** | 343 | 339 | 335 | 336 | 334 | 325 |




| YSGOL | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talwrn | 14% | 14% | 27% | 24% | 29% | 35% |
| Y Graig | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 1.5% |
| **CYFANSWM** | **2%** | **2%** | **3%** | **3%** | **4%** | **6%** |

Mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd llefydd gweigion yn cynyddu yn Ysgol Talwrn ac yn parhau i fod yn 0% yn Ysgol y Graig am y dyfodol rhagweladwy. Bydd ffactorau eraill yn effeithio ar niferoedd y disgyblion megis y Cynllun Datblygu Lleol h.y. tai newydd yn cael eu hadeiladu yn nalgylchoedd rhai o'r ysgolion. Bydd yr Awdurdod yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn cyd-gynllunio ar ragolygon niferoedd plant y dyfodol.

## 5.b Ffactorau Teithio a Daearyddol

Mae Llywodraeth Cymru'n datgan na ddylai disgyblion o oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol.
Mae'r ALI (Awdurdod Lleol) yn darparu cludiant di-dâl ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch.
Mae Polisi Cludiant yr Awdurdod hefyd yn datgan:
"na ddarperir cludiant ar gyfer disgyblion meithrin rhan-amser"
"Mae'r ALL yn darparu cludiant ysgol ddi-dâl ar gyfer disgyblion o dan 16 fel a ganlyn:
a) Ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer cludiant … ond sy'n teithio i'r ysgol ar hyd llwybr a ystyrir gan y Cyngor Sir i fod yn beryglus."

## 5.c Ymateb Cymunedol

| **Manylion yr ymgynghoriadau a'r ymgysylltu** | **Y grwpiau a ymgynghorwyd / ymgysylltwyd â hwy** | **Nifer a fynychodd** | **Prif faterion a godwyd** |
|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad Statudol<br><br>26ain Fedi – 13eg Tachwedd 2017 | Staff, llywodraethwyr a rhieni | Ysgol y Graig – 16<br><br>Ysgol Talwrn - 51 | **Ysgol Y Graig**<br><br>Pryder am faint yr adeilad newydd a chyfleusterau yno.<br><br>Holwyd am amserlen posib y gwaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu.<br><br>Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol.<br><br>Pryder am effaith posib staffio, swyddi a lleoliad yr adeilad newydd.<br><br>Holwyd am effaith posib y gwaith ar Dechrau'n Deg.<br><br>**Ysgol Talwrn**<br><br>Pryderon am swyddi'r staff.<br><br>Pryderon o ran pa lais fyddai llywodraethwyr Ysgol Talwrn yn ei gael yn Ysgol Y Graig ddiwygiedig.<br><br>Holodd rai am ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg am ysgolion gwledig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Pryderon am gludiant i unrhyw ysgol gynradd arall petai Ysgol Talwrn yn cau.<br><br>Pryderon am effaith posib cau ysgol Talwrn ar neuadd y bentref a'r eisteddfod leol.<br><br>Dymuniad rhai rhieni i Ysgol Talwrn gael ei huno gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth gan eu bod nhw yn "ysgolion gwledig". |
| Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at nifer o randdeiliaid eraill | ▪ Cyngor Gwynedd;<br>▪ Swyddogion Llywodraeth Cymru;<br>▪ Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol<br>▪ Estyn;<br>▪ Undebau'r athrawon ac Undebau staff ategol;<br>▪ Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe;<br>▪ Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sef Taith; | | **Ymateb yr N.U.T.:**<br><br>Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.U.T. Roedd eu swyddog yn "gwerthfawrogi angen yr Awdurdod i foderneiddio'r ystâd ysgolion" ond yn "gresynu gyda'r angen am ddiswyddiadau gorfodol fel sy'n digwydd yn ad-drefniad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ▪ Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;<br>▪ Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;<br>▪ Mudiad Meithrin;<br>▪ Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;<br>▪ Ysgol Gyfun Llangefni. | | Ysgol Santes Dwynwen".<br><br>**Barn Estyn:**<br><br>Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. |
| Sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid | | I'w gadarnhau | |

Rhwng y cyfnod 26ain Fedi – 13eg Tachwedd 2017 cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd ardal Llangefni. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i drigolion lleol sy'n cael ei effeithio gan y cynigion i holi swyddogion y Cyngor ymhellach ac i leisio barn a chyflwyno sylwadau. Trafodwyd sawl agwedd gwahanol yn ystod y cyfarfod, gyda chrynodeb wedi'i baratoi uchod. Pwysleisiwyd perthynas agos sy'n bodoli rhwng yr ysgolion a'u cymunedau. Yn anochel roedd yr ansicrwydd am ddyfodol yr ysgolion yn codi pryder o ran ddyfodol y cymunedau, a'u cynaliadwyedd heb ysgol leol.

Bydd cyfle pellach fel rhan o'r ymgynghoriad statudol i drigolion lleol gyfrannu tuag at y cynnig a gyflwynwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Fe'ch gwahoddwyd yn ogystal i gyfrannu tuag at yr asesiad effaith gymunedol trwy gwblhau arolwg er mwyn gallu annog y cydweithio rhwng yr Awdurdod, yr ysgolion, rhieni a disgyblion. Mae'r dolen gyswllt wedi ei ddarparu isod.  Dyddiad cwblhau yw 11eg Fehefin 2018.

xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx

**5.d Mwy o wybodaeth am yr ysgolion**

Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith bydd yr ysgol yn parhau i fod yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol. Dengys felly bod effaith gymunedol ar hyn o bryd (heb fewnbwn y gymuned leol) yn Bositif. Os bydd effaith negyddol yn cael ei amlygu, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno mesurau posib i liniaru hynny. Unwaith eto pwysleisir mai bwriad yr Awdurdod yw cydweithio efo cymunedau wrth i'r newid i drefniant presennol y 2 ysgol ddigwydd.